



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu  
Dyfed-Powys  
Police and Crime Commissioner

# Adroddiad Blynyddol

## 2021-2022



# Cynnwys

<b>Rhagair</b>	<b>3</b>
<b>Rôl y Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu</b>	<b>5</b>
<b>Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-25</b>	<b>6</b>
<b>Gweithio i Gyflawni'r Blaenoriaethau</b>	<b>9</b>
Blaenoriaeth 1: Cefnogi dioddefwyr	9
Blaenoriaeth 2: Atal niwed	18
Blaenoriaeth 3: Mae ein system gyfiawnder yn fwy effeithiol	27
<b>Gwerthoedd</b>	<b>33</b>
Cydweithio	33
Bod yn Atebol	36
Bod yn gynaliadwy	46
Ymgysylltu'n eang	48
<b>Adnoddau</b>	<b>52</b>



# Rhagair



Mae 2021-22 wedi bod yn flwyddyn gynhyrchiol, gyda phenodiad Prif Gwnstabl newydd ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, datblygiad a lansiad fy Nghynllun Heddlu a Throseddu newydd ar gyfer 2021-25, a'r gwaith partneriaeth parhaus gyda gwasanaethau allweddol, rhanddeiliaid, a phartneriaid ar lefel leol a rhanbarthol. Rwy'n ymfalchïo'n fawr yn yr hyn rydym wedi'i gyflawni dros y flwyddyn a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu a chefnogi ein hymdrechion dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-22 yn rhoi manylion cyflawniadau allweddol ar draws y flwyddyn ariannol, gwybodaeth ariannol gryno, penodiad y Prif Gwnstabl newydd, a gwaith partneriaeth parhaus drwy gydol y flwyddyn.

Gallwn eich sicrhau fy mod yn hynod ymwybodol o'r pwysau ariannol ehangach yr ydym i gyd yn eu hwynebu a'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol yr ydym yn gweithredu ynddo, a bod hyn wedi bod yn hollbwysig yn fy ystyriaethau a'm penderfyniadau yn ystod y flwyddyn.

Un o adegau mwyaf nodedig y flwyddyn i mi oedd datblygu a chyhoeddi fy Nghynllun Heddlu a Throseddu newydd. Mae'r Adroddiad hwn hefyd yn manylu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y tair blaenoriaeth a nodais yn fy [Nghynllun 2021-2025](#): Bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi, bod niwed yn cael ei atal, a bod ein system cyfiawnder troseddol yn fwy effeithiol.

Mae'n bwysig i nodi y cafodd y Cynllun ei ddatblygu ar ôl ymgynghori'n helaeth â'r cyhoedd a phartneriaid, lle y gofynnwyd i gyfranogwyr rannu eu barn am flaenoriaethau

plismona lleol. Rhaid i'r cyhoedd fod yn ganolog i bopeth a wnawn a phob penderfyniad a wnawn.

Fy ngweledigaeth gyffredinol ar gyfer 2021-25 yw cadw cymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ddiogel, gan gynnal ymddiriedaeth a hyder yn ein heddlu ar system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd. Mae darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer ein gweithredoedd a'n buddsoddiadau yn bwysig, a thrwy harneisio'r defnydd o dechnoleg a data i lunio ein gwasanaethau, rwy'n sicr y gellir gwneud gwelliannau pellach wrth sicrhau diogelwch ein hardal.

Fel yr Hyrwyddwr' Dioddefwyr 'lleol, mae'r gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr yn flaenoriaeth a dylent fod wrth galon popeth a wna'r Heddlu a'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol lleol yn ein hardal.

Rwyf am sicrhau nad yw cymunedau ac unigolion, yn enwedig y rhai mwyaf bregus, yn cael eu niweidio gan droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd gweithio mewn ffordd sy'n ceisio datrys problemau yn ein cymunedau yn sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau.

Dim ond trwy gydweithio ar draws y sector cyhoeddus a chydag arbenigwyr pwnc yn ein gwasanaethau a gomisiynir y gellir darparu system gyfiawnder effeithiol. Rwy'n hyderus y bydd dull partneriaeth yn arwain at wasanaeth gwell, i chi'r cyhoedd.

Bydd y Cynllun yn esblygu ac yn addasu i heriau a wynebir yn y blynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau bod gwasanaethau plismona a chyfiawnder troseddol yn parhau'n berthnasol ar gyfer y cymunedau maen nhw'n gweithredu ynddynt, ac yn eu hystyried.



Bu sawl llwyddiant allweddol ychwanegol yn ystod y flwyddyn yr wyf yn falch o adrodd arnynt, megis:

1. Parhau i gyflenwi gwasanaethau pwysig a gomisiynir – gwasanaethau yr wyf wedi'u hariannu – sy'n helpu i atal trosedd, cefnogi'r rhai sy'n agored i niwed, a mynd i'r afael â materion cymunedol.
2. Cael rhagor o arian o gronfa Strydoedd Mwy Diogel y Swyddfa Gartref, a arweiniodd at gymorth parhaus hollbwysig ar gyfer ardaloedd sy'n cael eu hystyried fel y rhai mwyaf difreintiedig yn Sir Gaerfyrddin.
3. Cyhoeddi bod 'Yr Elyrch wedi dod i gytundeb tair blynedd gyda Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddau'. Roedd modd imi roi grant o £300,000 i raglen 'Kicks' Uwch-gynghair Sefydliad Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe ar gyfer cyflwyno sesiynau pêl droed wythnosol am ddim i blant a phobl ifainc mewn pum cymuned o fewn yr ardal heddlu.
4. Cynnal fy Nghynhadledd Gŵyl Ddewi flynyddol am y chweched flwyddyn yn olynol. Ymunodd nifer o unigolion allweddol â mi yn gorfforol ac ar-lein er mwyn taflu goleuni ar yr heriau yr ydym yn eu hwynebu a'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
5. Y cyfleoedd parhaus i unigolion sydd wedi'u heffeithio gan drosedd gael eu lleisiau wedi'u clywed drwy waith Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys. Roedd hyn yn cynnwys fideo hyfforddi a oedd yn dangos profiadau go iawn dioddefwyr a goroeswyr, sydd nawr yn cael ei ddefnyddio fel adnodd dysgu ar gyfer rhaglenni hyfforddi'r heddlu o fewn Heddlu Dyfed-Powys.

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth barhaus.

Dafydd Llywelyn  
Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys

# Rôl y Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

*"Rôl Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw bod yn llais y bobol a dal yr heddlu i gyfrif. Maen nhw'n gyfrifol am blismona yn ei gyfanrwydd."*

[Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd](#)



## Dyma 12 peth i'w gwybod am rôl Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

### Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am:

1. Osod y blaenoriaethau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys;
2. Cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu;
3. Ymgysylltu â Chymunedau a chynrychioli llais y cyhoedd ar faterion plismona;
4. Gweithio'n agos â phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol;
5. Cefnogi dioddefwyr a dod â phobl o flaen eu gwell;
6. Comisiynu gwasanaethau i wneud cymunedau'n fwy diogel a chefnogi'r rhai sy'n agored i niwed;
7. Penodi'r Prif Gwnstabl, a'i ddiswyddo os oes angen;
8. Ymdrin â chwynion a materion disgyblu yn erbyn y Prif Gwnstabl;

9. Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif; a
10. Gosod lefel praesept a chyllideb flynyddol yr Heddlu.

### Nid yw'r Comisiynydd yn gyfrifol am:

11. Drefnu a chyflwyno gwasanaethau heddlu o ddydd i ddydd, sef "plismona gweithredol"; nac
12. Ymchwilio i gwynion yn erbyn swyddogion heddlu islaw gradd y Prif Gwnstabl.



I wylio ein fideo yn esbonio rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ewch i'n tudalen ar YouTube, yma: <https://www.youtube.com/watch?v=qZjX8ZCNOjk>

# Cynllun Heddlu a Throsedd

Un o rolau allweddol Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw cynhyrchu Cynllun Heddlu a Throsedd sy'n sefydlu'r cyfeiriad ar gyfer plismona am y pedair blynedd nesaf.



Mae Cynllun Heddlu a Throsedd 2021-25 ar gael i'w ddarllen ar wefan y Comisiynydd: <https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-comisiynydd/cynllun-heddlu-a-throsedd/>

## Gweledigaeth

*"Fy ngweledigaeth gyffredinol ar gyfer 2021-25 yw cadw cymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ddiogel, gan gynnal ymddiriedaeth a hyder yn ein heddlu ar system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd."*

## Blaenoriaethau

Tair blaenoriaeth allweddol y Comisiynydd yw:

- 1. cefnogi dioddefwyr,**
- 2. atal niwed, a**
- 3. sicrhau system gyfiawnder fwy effeithiol.**

Mae'r Cynllun yn manylu amcanion y Comisiynydd ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys a'r ffordd y bydd yn dal yr Heddlu i gyfrif er mwyn eu cyflawni. Y mae hefyd yn nodi'r camau bydd y Comisiynydd yn eu cymryd gyda phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus.

Mae cyfres o fideos wedi'u hanimeiddio ar gael i gefnogi a chrynhai Cynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd, i'w wneud yn fwy hygyrch i bawb. Gallwch eu gweld ar YouTube [yma](#):



## Gwerthoedd

Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn a bodloni gweledigaeth y Comisiynydd, rhaid mabwysiadu nifer o werthoedd a'u cydbblethu o fewn y gwaith a wneir gan y Comisiynydd, ei dîm a'i bartneriaid:



Cydwethio



Bod yn Atebol



Bod yn gynaliadwy



Ymgysylltu'n eang

Mae'r Adroddiad Blynnyddol hwn yn adlewyrchu ar y gwaith a wnaed i fodloni'r blaenoriaethau, yn ogystal â sut mae'r Comisiynydd wedi hyrwyddo cydwethred, atebolrwydd, cynaliadwyedd ac ymgysylltu.

## Cynllun Cyflenwi

Ategir y Cynllun Heddlu a Throsedd newydd gan Gynllun Cyflenwi, a fydd yn amlinellu'r modd y bydd blaenoriaethau'r Comisiynydd yn cael eu bodloni, yn ogystal â'r mesurau a fydd yn cael eu rhoi mewn grym ar gyfer sicrhau bod cynnydd yn cael ei olrhain ac ar gael ar gyfer craffu cyhoeddus.

Bydd y Cynllun Cyflenwi'n cynnwys y Mesurau Trosedd a Phlisma Cenedlaethol a osodwyd gan y Swyddfa Gartref, sy'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol: -

- |  |                                 |  |  |
|--|---------------------------------|--|--|
| <b>1</b> Lleihau llofruddiaethau a dynladdiadau eraill   | <b>2</b> Lleihau trais difrifol | <b>3</b> Aflonyddu ar gyflenwi cyffuriau a llinellau cyffuriau | <b>4</b> Lleihau troseddau cymdogaeth, gan gynnwys lladradau bwrglera, ysbeilio a lladrata |
| <b>5</b> Gwella bodlonrwydd dioddefwyr, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddioddefwyr cam-drin domestig |                                 | <b>6</b> Mynd i'r afael â seiberdrosedd                        |  |

Bydd y Comisiynydd yn darparu diweddariadau chwarterol am y modd y mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cyfrannu tuag at gyflenwi'r mesurau cenedlaethol, a fydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.

## Ail-lunio Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Heddlu a Throsedd, penderfynodd y Comisiynydd ailstrwythuro ei Swyddfa, gan alluogi cyflawni'n effeithiol yn erbyn blaenoriaethau ei Gynllun Heddlu a Throsedd newydd.

Nid oedd yn benderfyniad a wnaed yn ysgafn gan y Comisiynydd, ond fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd, mae'n rhaid iddo adolygu'r holl adnoddau o dan ei gyfarwyddyd yn rheolaidd i sicrhau bod popeth yn parhau i fod yn effeithiol ac yn addas at y diben. Mae myfyrio parhaus yn hanfodol o fewn cyd-destun gweithredu cyflym a chynwidiol Cyfiawnder Troseddol a Phlisma.

Yn bennaf oherwydd y pandemig COVID-19, bu newid sylweddol o ran sut roedd tîm y Comisiynydd yn gweithredu ar draws 2020-2022, yn ogystal â sut roedd y system Cyfiawnder Troseddol yn gweithredu. Teimlai'r Comisiynydd fod angen newidiadau, a bod twf o fewn y tîm yn hanfodol.

Dechreuodd y gwaith ar yr ailstrwythuro yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22, a dechreuodd cyfnod ymgynghori â'r tîm ym mis Mawrth 2022.

Trosoglwyddwyd y swyddogaeth Ystadau i Heddlu Dyfed-Powys ym mis Ebrill 2022, a disgwylir i'r strwythur newydd gael ei roi ar waith ym mis Mehefin 2022.



<https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/>

## Gofyniad Plisma Strategol

Mae gan y Comisiynydd fandad i sicrhau bod y Gofyniad Plisma Strategol (SPR) yn cael ei ystyried yn briodol wrth wneud penderfyniadau.

Mae'r Cynllun Heddlu a Throsedd newydd yn cymryd sylw o'r gofynion a nodwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref, a thrwy gydol y flwyddyn, roedd Swyddfa'r Comisiynydd yn goruchwylio gallu'r Heddlu i gwrdd â'r SPR drwy fynychu Grŵp Bygythiadau Strategol yr Heddlu'n rheolaidd.



## Penodi Prif Gwnstabl Newydd



Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd y Comisiynydd bod Dr Richard Lewis wedi'i benodi'n Brif Gwnstabl newydd Heddlu Dyfed-Powys, yn dilyn cefnogaeth unfrydol gan Banel yr Heddlu a Throseddau.

Wrth siarad ar y pryd, dywedodd y Comisiynydd:

*"Roedd yn bwysig fy mod yn recriwtio Prif Swyddog a allai ddod â'r weledigaeth, y penderfyniad a'r gwydnwch sydd eu hangen i arwain yr Heddlu. Mae profiad a dealltwriaeth helaeth Richard o blismona yn ogystal â'i adnabyddiaeth o ardal Dyfed-Powys yn ei roi mewn lle da i gefnogi'r blaenoriaethau yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddau."*

Yn wreiddiol o Sir Gaerfyrddin, dechreuodd gyrfa Dr Richard Lewis yng ngwasanaeth yr heddlu yn 2000 fel cwnstabl heddlu yn Nyfed-Powys. Mae wedi gweithio mewn amrywiaeth o rolau mewn iwnniform a'r CID yn ystod ei 18 mlynedd yn Heddlu Dyfed-Powys, gan wasanaethu ar bob rheng hyd at (a chan gynnwys) Dirprwy Brif Gwnstabl, a gweithio ym mhob un o bedair sir ardal yr heddlu. Mae Dr Richard Lewis hefyd wedi bod yn Bennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol ac wedi cadeirio Gweithgor Gwrth-lygredd Cymru.

Ym mis Rhagfyr 2021, dechreuodd Dr Richard Lewis ar ei rôl fel Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys, gyda shifft nos ar strydoedd Aberystwyth! Yn ystod ei fisoedd cyntaf yn y swydd – hyd at fis Mawrth 2022, ymgynghorodd y Prif Gwnstabl â'i staff ar y blaenoriaethau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys: 100 diwrnod o wrando.

*"Pan fyddwn ni wedi pennu ein blaenoriaethau ac wedi penderfynu sut y byddwn yn mesur cynnydd, ni fyddwn yn gosod targedau ond yn hytrach, byddwn yn anelu at fod yn well bob dydd. Ni fyddwn yn diffinio ein hunain yn erbyn canlyniadau eraill, ond yn anelu at wella'n barhaus."*

Prif Gwnstabl Dr Richard Lewis

Ar ddechrau mis Ebrill 2022, pennodd y Prif Gwnstabl dair blaenoriaeth sefydliadol ar gyfer yr Heddlu:

1. Dileu cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu;
2. Ymateb tosturiol i ddiodefswyr trais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol difrifol ac ymlid troseddswyr yn ddi-baid; a
3. Gwneud ardal Heddlu Dyfed-Powys yn elyriaethus i'r rhai hynny sy'n delio cyffuriau.

Nawr bydd y Prif Gwnstabl yn arwain yr Heddlu i gyflawni ei flaenoriaethau ef a blaenoriaethau'r Comisiynydd.

# Gweithio i Gyflawni'r Blaenoriaethau

Tra bod Cynllun Heddlu a Throsedd 2021-25 wedi'i gyhoeddi yn hanner olaf y flwyddyn ariannol, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi, bod niwed yn cael ei atal, a bod y system cyflawnder troseddol yn fwy effeithiol. Mae'r rhain i gyd yn feysydd gwaith pwysig ar gyfer y Comisiynydd, ei dîm a phartneriaid.

Dros y tudalennau nesaf, byddwn yn edrych ar rywfaint o'r gwaith yr ymgwymerwyd ag ef ar gyfer pob blaenoriaeth.



## Blaenoriaeth 1: Cefnogi dioddefwyr

### Buddsoddi mewn Gwasanaethau Cymorth ar gyfer dioddefwyr

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22, parhaodd y Comisiynydd i ariannu gwasanaethau cymorth hanfodol ar gyfer dioddefwyr.



### Goleudy

Drwy gydol 2021-22, parhaodd Goleudy i gynnig cymorth personol, emosiynol ac ymarferol er mwyn helpu dioddefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, eu teuluoedd a thystion.

Cyfeiriodd Goleudy dioddefwyr at wasanaethau cymorth arbenigol yn ôl yr angen, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, cam-drin domestig, trais rhywiol a chamddfnnyddio sylweddau.

#### Yn 2021-2022:

- Cyfeiriwyd ychydig dros **30,000** o ddioddefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol at wasanaeth Goleudy am asesiad o'u hangen ar gyfer cymorth
- Roedd **43.81%** o ddioddefwyr a ddewisodd beidio derbyn cymorth gan wasanaeth Goleudy eisoes yn derbyn cymorth gan asiantaeth arbenigol arall

#### Canlyniadau gwasanaeth cymorth Goleudy:

- Adroddodd **87%** o ddioddefwyr eu bod yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i'w cysylltiad â Goleudy.
- Adroddodd **82%** o ddioddefwyr eu bod yn medru ymdopi'n well ag effaith y drosedd.
- Roedd **88%** yn teimlo'n fwy parod i ddelio â'u profiad.

## Pobl a Hafan Cymru

Roedd cyllid y Comisiynydd yn caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig o adeg yr adroddiad hyd at ymddangosiadau llys.

Cefnogodd Pobl a Hafan Cymru dioddefwyr cam-drin domestig bregus, mynych a pherygl uwch, ynghyd â'u teuluoedd. Fe wnaethon nhw sicrhau bod lefelau risg yn cael eu lleihau, a chynlluniau diogelwch yn cael eu rhoi mewn grym.

Parhaodd y gwasanaeth Cyngorydd Annibynnol ar Drais Domestig i gefnogi dioddefwyr perygl uwch a chyflawni canlyniadau hollbwysig.



### Yn 2021-22:

- Gwnaed **1,723** cyfeiriad i'r gwasanaeth Cyngorydd Annibynnol ar Drais Domestig.
- Ymgysylltodd **87%** â'r gwasanaeth.
- Roedd **30%** yn gyfeiriadau mynych.
- Cysylltwyd â'r dioddefydd o fewn **1** diwrnod gwaith mewn **77%** o gyfeiriadau.
- Derbyniodd **26%** o ddefnyddwyr gymorth wyneb yn wyneb.

### Canlyniadau'r gwasanaeth Cyngorydd Annibynnol ar Drais Domestig:

- Adroddodd **61%** o gleientiaid eu bod nhw'n teimlo'n fwy diogel.
- Adroddodd **55%** am ansawdd bywyd gwell.
- Roedd **80%** o gleientiaid yn fodlon â'r gwasanaeth cyffredinol a dderbyniwyd ganddynt.

Yn ystod haf 2022, bydd y Comisiynydd yn arwain ar ail-gomisiynu'r gwasanaeth hwn, ynghyd â phartneriaid, er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth hwn, sy'n hollbwysig ar gyfer amddiffyn dioddefwyr perygl uwch.



## New Pathways

O ganlyniad i arian a gyflwynwyd gan y Comisiynydd, yn 2021-22, parhaodd New Pathways i ddarparu mynediad 24 awr i ddiodefwyr at gymorth argyfwng a chymorth parhaus mewn man diogel sy'n cynnig cymorth cyntaf, diogelwch a gofal clinigol a fforensig.



### Yn 2021-22:

- Gwnaed **573** cyfeiriad i wasanaeth New Pathways.
- Roedd **61%** o'r rhain yn achosion hanesyddol.
- Roedd **16%** o gyfeiriadau ar gyfer plant o dan 16 oed.
- Roedd **8%** o'r diodefwyr a gyfeiriwyd yn 16 neu 17 oed.

### Canlyniadau gwasanaeth cymorth New Pathways:

- Adroddodd **75%** o ddefnyddwyr gwasanaeth eu bod nhw'n medru ymdopi'n well.
- Profodd **75%** ostyngiad o ran symptomau gorbryder.

Yn ei rôl fel Cadeirydd Plismona yng Nghymru, mae'r Comisiynydd wedi arwain partneriaid o ran datblygu cyd-fodel plismona ac iechyd o gyflenwi gwasanaethau cam-drin rhywiol ledled Cymru. Bydd y Comisiynydd a'i dîm yn gweithio gyda swyddfeydd Comisiynydd Heddlu a Throseddau eraill i ail-gomisiynu gwasanaeth cymorth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol ar gyfer diodefwyr ledled Cymru.

## Arian ychwanegol ar gyfer diodefwyr trais domestig a rhywiol

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y cyllid ychwanegol gan y Llywodraeth a sicrhawyd gan y Comisiynydd ar gyfer sefydliadau sy'n darparu cymorth ar gyfer diodefwyr trais domestig a rhywiol.

Yn 2021-22, sicrhodd Swyddfa'r Comisiynydd £193,047 o gyllid ar gyfer sefydliadau er mwyn sicrhau bod y rhai mwyaf agored mewn cymdeithas yn cael y gefnogaeth yr oeddent ei hangen:

- Llwybrau Newydd
- Arloesi Meddyliau CIC
- BAWSO
- Prifysgol Aberystwyth – cynnal gwasanaethau Dewis
- Gwasanaeth Trais Domestig Calan
- Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin
- Canolfan Argyfwng Teulu Sir Drefaldwyn
- Pobl yn Gyntaf Sir Benfro



Yn 2021-22, sicrhaodd y Comisiynydd £436,046 o gyllid ychwanegol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer recriwtio Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig newydd.

Mae **Ymgynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol** yn rhoi cymorth emosiynol ac ymarferol i ddioddefwyr trais neu ymosodiad rhywiol, a'u prif rôl yw darparu cymorth o gwmpas y broses cyfiawnder troseddol.

Mae **Ymgynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig** yn darparu cymorth argyfwng i

ddioddefwyr cam-drin domestig yr asesir eu bod mewn perygl uwch. Maen nhw'n gweithio i leihau perygl a rhoi cynlluniau diogelwch mewn grym.

Mae'r ddau wasanaeth wedi gweld cynnydd digynsail yn dilyn y pandemig COVID-19, ac o ganlyniad, cyflwynwyd ceisiadau drwy'r Comisiynydd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn sicrhau adnoddau ychwanegol. Mae'r cyllid ychwanegol yn caniatáu darpariaeth adnoddau pwrpasol, gan sicrhau bod pob dioddefydd yn cael ei gefnogi a bod cyflenwi hyblyg ar gael ac yn gynaliadwy.

## Llamau

Sicrhaodd arian gan y Comisiynydd fod Llamau'n medru parhau i gynnig gwasanaeth cyflafareddu, cymorth ac ôl-drafod annibynnol ar gyfer plant a phobl ifainc yr adroddwyd eu bod ar goll ac mewn perygl o erledigaeth neu gamfanteisio rhywiol, a'u teuluoedd.

Arddangosodd 15% o'r bobl ifainc a gyfeiriwyd ar gyfer ôl-drafod gan Llamau arwyddion o gamfanteisio rhywiol posibl. Nodwyd materion yn ystod ôl-drafodaethau lle'r oedd pobl ifainc mewn perygl sylweddol fel dioddefwyr a chyflawnwyr trosedd. Roedd Llamau'n medru rhoi'r cymorth a'r cyflafareddu gofynnol yn yr achosion hyn er mwyn ceisio torri'r cylch hwn.

Mae effaith y gwasanaeth hwn wedi'i harddangos o ran y manteision i'r rhai sy'n derbyn y gwasanaeth, yn ogystal â gostyngiad parhaus mewn achosion o bobl ifainc coll yn cael eu hadrodd.



Yn 2021-22, cyfeiriwyd 429 plentyn coll at Llamau ar gyfer y gwasanaeth ôl-drafod.

Profodd y gwasanaeth gynnydd sylweddol o ran nifer a chymhlethdod y cyfeiriadau i'r gwasanaeth. O ganlyniad, cymeradwyodd y Comisiynydd gynnydd yn y cyllid ar gyfer sicrhau adnoddau i'r gwasanaeth. Bydd hyn mewn grym am gyfnod o 12 mis er mwyn gwerthuso pa un ai a yw'r cynnydd o ran capasiti'n bodloni'r galw. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi estyn y cytundeb gyda Llamau er mwyn parhau â'r gwasanaeth hanfodol hwn.

## Swyddog Diogelu Rhag Twyll

Yn ystod 2021-22, parhaodd y Comisiynydd i ariannu'n rhannol rôl hanfodol Swyddog Diogelu Rhag Twyll yn Adran Ymchwiliadau Troseddol yr Heddlu.

Mae Swyddog Diogelu Rhag Twyll Dyfed-Powys yn cydlynu Ymgyrch Signature a'r Protocol Bancio, yn cefnogi dioddefwyr twyll rhamant, ac yn cydlynu adroddiadau i Action Fraud sydd angen cysylltiad Heddlu Dyfed-Powys.

Mae **Ymgyrch Signature** yn nodi ac yn cefnogi dioddefwyr twyll bregus ac yn darparu mesurau ataliol a chefnogol i amddiffyn dioddefwyr a'u diogelu rhag targedu pellach.

	2019-20	2020-21	2021-22
Cyfanswm yr Atgyfeiriadau	455	407	<b>376</b>

O'r 376 unigolyn a aeth i mewn i Ymgyrch Signature, cafodd 84 eu categoreiddio'n ddiodefwyr perygl uwch, a 95 yn ddiodefwyr perygl canolig.

Cafodd y Swyddog Diogelu Rhag Twyll gysylltiad uniongyrchol â 183 o ddiodefwyr, gan ddarparu cymorth.

	O dan 20	14
Cyfanswm yr arian a gafodd ei ddwyn wrth y diodefwyr a aeth i mewn i Ymgyrch Signature yn 2021-22 oedd £3,547,252.	21 – 30	15
	31 – 40	15
	41 – 50	19
	51 – 60	59
	61 – 70	69
Oed cyfartalog y rhai a aeth i mewn i Ymgyrch Signature oedd 66.	71 – 80	93
	80+	92

**Roedd 206 o'r diodefwyr a aeth i mewn i Ymgyrch Signature yn fenywod, roedd 169 yn ddynion, a nodwyd 1 fel 'arall/anhysbys'.**

Mae'r **Protocol Bancio** yn gynllun cenedlaethol rhwng yr heddlu a'r sector ariannol. Mae'n anelu i adnabod cwsmeriaid banc sydd wrthi'n cael eu herlid, a'u cyfeirio i mewn i Ymgyrch Signature.

Cyfeiriwyd 142 o ddiodefwyr i mewn i Ymgyrch Signature yn 2021-22 drwy'r Protocol Bancio.

Trwy'r protocol hwn, roedd modd i'r Swyddog Diogelu Rhag Twyll a Heddlu Dyfed-Powys atal £967,739.00 rhag cael ei golli.

### Enghraifft o achos a gyfeiriwyd i'r Protocol Bancio:

- Gweithredwyd y Protocol Bancio ar gyfer dynes oeddrannus oherwydd pryderon ynglŷn â phwy yr oedd hi'n anfon arian ato.
- Mynnodd y diodefydd fod yr arian yn cael ei anfon at ffrindiau yr oedd hi wedi'u hadnabod ers dros 50 mlynedd. Ymwelodd y Swyddog Diogelu Rhag Twyll â'r diodefydd, fodd bynnag, roedd hi'n dal i fynnu mai dyna oedd y sefyllfa.
- Oherwydd pryderon y Swyddog Diogelu Rhag Twyll, cadwyd cysylltiad â'r diodefydd a chynhaliwyd ymholiadau pellach.
- Dros gyfnod o 3 mis, datblygodd y Swyddog Diogelu Rhag Twyll berthynas â'r diodefydd, a esboniodd yn y pen draw ei bod hi wedi derbyn galwad gan rywun a ddywedodd ei fod yn galw o'i banc.
- Arweiniodd hyn at y diodefydd yn colli ei chynilon oes a'i phensiynau - cyfanswm o tua £250,000. Gadawyd y diodefydd heb ddim.
- Roedd y twyllwr wedi meithrin perthynas â hi ac wedi gwneud iddi gredu na ddylai ymddiried yn ei gwasanaeth heddlu lleol na staff y banc.
- Derbyniodd y diodefydd gyngor helaeth a chyflwynwyd nifer o fesurau atal twyll.



Heddlu Police  
**DYFED  
POWYS**



Yn 2021-22, parhaodd y Swyddog Diogelu Rhag Twyll i ymgysylltu â nifer fawr o ddiodefwyr **twyll rhamant**.

Mae troseddwr sy'n ymwneud â thwyll rhamant yn buddsoddi cryn dipyn o amser mewn twyllo'u targedau drwy ddulliau peirianeg gymdeithasol, gan ennyn ymddiriedaeth a chynyddu eu siawns o gael cryn dipyn o arian.

Mae effaith feddyliol, emosiynol ac ariannol y math hwn o dwyll ar ddiodefwyr yn fawr ac mae angen lefelau sylweddol o ymgysylltu gan y Swyddog Diogelu Rhag Twyll i hyd yn oed argyhoeddi'r diodefydd i ddechrau ei fod wedi'i dargedu'n droseddol.

Derbyniodd Heddlu Dyfed-Powys 134 adroddiad am dwyll rhamant yn ystod y flwyddyn, gan arwain at gyfanswm colled ariannol i'r diodefwyr o £898,356.00.

**Diogelwch eich data, eich waled, a'ch calon**

**Bydd twyllwyr yn dweud y pethau yr ydych eisiau clywed er mwyn cael yr hyn maen nhw eisiau**

*John Smith*

Os ydych yn poeni am berthynas, neu bartner newydd rhywun arall, galwch 101 neu ewch i [bit.ly/HDPRIportiwchArLein](http://bit.ly/HDPRIportiwchArLein)  
Os ydych yn fyddar, yn drwm o glyw, neu â nam ar eich lleferydd, tecstiwch 07811 311 908

## Action Fraud

Gwnaed cyfanswm o 4,362 adroddiad i Action Fraud gan breswylwyr ardal Dyfed-Powys yn 2021-22.

Nid yw Heddlu Dyfed-Powys yn cyfeirio diodefwyr sy'n cysylltu â'r heddlu at Action Fraud ond yn cofnodi pob trosedd eu hunain. Yna maent yn adrodd am bob un yn unigol i Action Fraud ar ran y diodefwr. Mae'r ymagwedd hon wedi cael cydnabyddiaeth a chanmoliaeth genedlaethol. Mae Asesiad Twyll Rhamantaidd 2022 Heddlu Dinas Llundain yn cydnabod y canlynol: *"Lansiodd Heddlu Dyfed-Powys fenter i sicrhau adroddiadau cynyddol a mwy cywir i Action Fraud a gwell ansawdd gofal diodefwyr i ddiodefwyr twyll a throseddau seiber. Bu'n llwyddiannus iawn."*

Adroddwyd am 2,694 o'r rhain wrth Heddlu Dyfed-Powys fel galwad am wasanaeth. Cyfanswm y golled ariannol i ddiodefwyr oedd £4,087,897.

Derbyniodd Action Fraud 1,668 adroddiad uniongyrchol, lle nad yw'r colledion yn cael eu cofnodi.

## Swyddog Brysbennu Twyll

Yn ystod 2020, ymgymerodd Tim Troseddau Economaidd Heddlu Dyfed-Powys â'r gwaith o reoli'r holl ddigwyddiadau twyll a seiberdroseddau a adroddwyd i Heddlu Dyfed-Powys fel galwad am wasanaeth. Gwnaethant frysennu'r adroddiadau ac ymgysylltu â diodefwyr cyn gynted â phosibl er mwyn darparu cyngor, arweiniad a chymorth arbenigol cyson ar bynciau ac er mwyn sicrhau adrodd cywir i Action Fraud.

Nodwyd y byddai rôl Swyddog Brysbennu Twyll o fewn y Tim o fudd mawr i'r Heddlu ac, yn benodol, i ddiodefwyr twyll. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, ariannodd y Comisiynydd 50% o gyflog y rôl.

## Prif rôl y Swyddog Brysbennu Twyll yw:

- Cysylltu â phob person sy'n rhoi gwybod am dwyll er mwyn rhoi cyngor, arweiniad a chymorth arbenigol ar bynciau;
- Nodi pa mor agored i niwed a, lle bo angen, cyfeirio at Ymgyrch Signature;
- Cysylltu â'r Swyddog Diogelu Twyll;
- Rhoi gwybod am yr holl dwyll a adroddir i'r Heddlu i Action Fraud ar ran y dioddefwr; a
- Rhoi cyngor ac arweiniad i staff rheng flaen mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â thwyll.

## SAMM National (Cymorth ar ôl Llofruddiaeth a Dynladdiad)

Yn ystod 2021-22, cyfarfu'r Comisiynydd â Phrif Swyddog Gweithredol SAMM National. Buont yn trafod gwaith pwysig yr elusen o ran darparu cymorth profedigaeth i deuluoedd dioddefwyr llofruddiaeth neu ddynladdiad ledled Cymru a Lloegr, yn ogystal â darparu gwasanaeth Cymraeg yn ardal Dyfed-Powys.

Yn dilyn y cyfarfod, rhoddodd y Comisiynydd rodd elusennol o £500 i SAMM National, ac maent yn parhau i weithio gyda'i gilydd.

**SAMM**National  
Support After Murder and Manslaughter

## Buddsoddi mewn Cymunedau i Gefnogi'r Rhai sy'n Agored i Niwed

Dosbarthodd y Comisiynydd gyllid hefyd i sefydliadau cymunedol ac elusennau i gefnogi'r rhai sy'n agored i niwed.

### Canolfan Deulu St Paul, Llanelli

Ymwelodd y Comisiynydd â Chanolfan Deulu St Paul yn Llanelli, Sir Gaerfyrddin, s'yn darparu gwasanaethau i blant er mwyn sicrhau:

- eu bod yn cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu,
- eu bod yn mwynhau'r iechyd gorau posibl,
- yn rhydd o gamdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio,
- a'u bod yn gallu manteisio ar weithgareddau chwarae, hamdden a diwylliannol.

Mae'r Ganolfan hefyd yn darparu cartref

diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol. Cyfrannodd y Comisiynydd £1,000 i sicrhau y gallai'r Ganolfan barhau i ddarparu eu gwasanaethau hanfodol ar gyfer eu cymuned.

### Pobl yn Gyntaf Sir Benfro

Ymwelodd y Comisiynydd â Pobl yn Gyntaf Sir Benfro; elusen annibynnol sy'n cael ei rhedeg gan ac ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth.

Yn dilyn yr ymweliad, cyfrannodd y Comisiynydd tuag at yr elusen i'w helpu i barhau â'u gwaith gwerthfawr yn y gymuned.



## Rhoi Llais i Ddiodefwyr - Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr

Nod trosfwaol y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yw cydweithio i sicrhau bod dioddefwyr yn cefnogi darparu gwasanaethau rhagorol.

Drwy'r Fforwm, mae'r Comisiynydd yn parhau i roi cyfleoedd i'r rhai sydd â phrofiad personol gymryd rhan mewn trafodaethau lleol am flaenoriaethau cyfiawnder troseddol a chynllunio gwasanaethau ar y cyd lle bo'n briodol.

Isod, nodir rhai o'r gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr a ystyriwyd gan y Fforwm yn ystod y flwyddyn, y gweithgareddau yr ymgwymerwyd â nhw, ac yn bwysicach, canlyniad eu gwaith.



# 1

**Gwasanaeth dioddefwyr a ystyriwyd:** Newidiadau arfaethedig i'r ffordd y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymdrin â galwadau difrys gan ddiodefwyr troseddau / digwyddiadau ac yn eu prosesu.

**Yr hyn y gofynnwyd i aelodau Fforwm ystyried:** Fel rhan o'r prosiect O'r Dechrau i'r Diwedd, gofynnwyd i aelodau weld fideos yn dangos senarios a oedd yn cymharu sut yr ymdriniodd yr Heddlu â galwad benodol ar y pryd, a sut yr oeddent yn bwriadu ymdrin â galwad o'r fath o dan y newidiadau arfaethedig. Gofynnwyd i Aelodau roi adborth ynglŷn â pha un ai a oeddent yn credu y byddai'r newidiadau'n arwain at wasanaeth gwell ar gyfer diodefwyr.

**Canlyniad:** Ystyriodd Heddlu Dyfed-Powys yr adborth a ddarparwyd a'r argymhellion a gyflwynwyd gan dîm y Comisiynydd. Un argymhelliad oedd i'r tîm prosiect weithio ochr yn ochr ag aelodau Fforwm wrth dreialu'r broses newydd. O ganlyniad, roedd nifer o aelodau'n rhan o ymarfer "galwadau prawf" a welon nhw yn cael ei dywys drwy'r broses newydd yng Nghanolfan Troseddau a Digwyddiadau newydd yr Heddlu fel galwr go iawn, ac yna'n rhoi adborth.

# 2

**Gwasanaeth dioddefwyr a ystyriwyd:** Datganiadau Personol Dioddefwyr. Wrth ystyried newidiadau i'r ffordd y mae Datganiadau Personol Dioddefwyr yn cael eu cofnodi, ceisiodd Heddlu Dyfed-Powys gael gwybod gan ddiodefwyr sut y gallent wella'r prosesau sydd mewn grym ar yr adeg honno.

**Yr hyn y gofynnwyd i aelodau Fforwm ystyried:** Rhoddodd aelodau fforwm adborth ynglŷn â'u profiadau o ddatblygu Datganiad Personol Dioddefydd drwy arolwg ar-lein. Ar ben hyn, fe wnaethant adolygu templed arfaethedig ar gyfer Datganiad Personol Dioddefydd a rhoi adborth arno.

**Canlyniad:** Ystyriodd Heddlu Dyfed-Powys yr adborth a'i gynnwys mewn gwelliannau proses.

# 3

**Gwasanaeth dioddefwyr a ystyriwyd:** Profiadau personol diodefwyr o ran ymdrin â Heddlu Dyfed-Powys.

**Yr hyn y gofynnwyd i aelodau Fforwm ystyried:** Cyfwelwyd ag aelodau'r Fforwm am eu profiadau gyda Heddlu Dyfed-Powys. Rhoddodd bob un adborth ynglŷn â'r hyn aeth yn dda a'r hyn na aeth cystal, yn ogystal â'r cyngor y byddent yn rhoi i swyddogion sy'n ymdrin ag achos tebyg i'w un nhw, a sut mae eu profiad wedi effeithio ar eu cysylltiadau â'r Heddlu yn y dyfodol.

**Canlyniad:** Mae'r cyfweiliadau wedi'u dwyn ynghyd mewn un fideo hyfforddi a fydd yn cael ei gynnwys ym mhecyn hyfforddi Heddlu Dyfed-Powys. Bydd y fideo hwn yn helpu i sicrhau bod swyddogion a staff yr heddlu'n clywed barn diodefwyr go iawn am y gwasanaeth plismona.

**“ Mae'r fideo hyfforddi a grëwyd drwy'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn adnodd hollbwysig ac effeithiol iawn inni gael. Mae'n bwysig bod ein staff a'n swyddogion heddlu presennol a newydd yn clywed am brofiadau dioddefwyr gan y dioddefwyr eu hunain. Byddwn ni'n defnyddio'r fideo hwn ochr yn ochr â'r fideo sy'n dangos profiadau pobl ifainc o gyswllt â'r heddlu, a ddatblygwyd gan Lysgenhadon Ifainc Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Diolch i bawb a gymerodd ran. ”**

Yr Uwch-arolygydd Craig Templeton, Pennaeth Dysgu a Datblygu

**“ Rwy'n falch iawn fy mod i wedi gwneud hyn, os yw'n medru helpu eraill mewn unrhyw ffordd. Rwy'n sylweddoli bod rhai pethau sydd ond yn medru cael eu datgelu gan rywun sydd wedi dioddef y math hwn o drosedd er mwyn helpu eraill i'w hadnabod. ”**

Aelod o'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr.

Gwasanaethau dioddefwyr eraill a ystyriwyd gan aelodau Fforwm yn ystod y flwyddyn oedd cynnwys a chynllun deunydd gwybodaeth ar gyfer dioddefwyr: Taflen “Beth yw Gwasanaeth Dioddefwyr a Thystion Goleudy?” Goleudy a “Canllaw Gwybodaeth a Chymorth” Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer dioddefwyr trais ac ymosodiadau rhywiol difrifol. Bob tro, ystyriwyd adborth a diwygiwyd y daflen cyn ei chyhoeddi. Yn ogystal, gofynnwyd iddynt ystyried yr hyn maen nhw'n credu sy'n amser rhesymol i ddioddefydd dderbyn galwad yn ôl wrth Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau Heddlu Dyfed-Powys pan mae dioddefydd yn galw 101 a does neb ar gael i siarad ag ef. Ystyriwyd ymatebion aelodau Fforwm wrth adolygu'r broses newydd.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ceisio adborth gan y Fforwm yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Anogir partneriaid cyfiawnder lleol eraill i ymgysylltu â dioddefwyr drwy'r platfform hwn.





## Blaenoriaeth 2: Atal niwed

Mae ymyrraeth gynnar a dulliau datrys problemau yn hanfodol i atal niwed. O'r herwydd, mae'r Comisiynydd yn buddsoddi mewn ystod eang o raglenni atal a dargyfeirio ledled ardal Dyfed-Powys.

### Partneriaethau Troseddau Ieuentid

Buddsoddodd y Comisiynydd £180,000 mewn Partneriaethau Troseddau Ieuentid yn 2021-22. Galluogodd hyn gyflenwi gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac atal ar gyfer pobl ifainc 8-17 oed a oedd mewn perygl o droseddu. Y nod oedd lleihau perygl a gwella eu diogelwch a'u lles.

Cyflawnir hyn drwy ymyriadau a gweithgareddau, ac mae'r un trefniadau ar waith yn y pedair partneriaeth troseddau ieuentid, yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u dylunio'n unigol yn seiliedig ar anghenion lleol pob cymuned.

**Yn ystod 2021-22, cymerodd 73 o bobl ifanc ran mewn rhaglen atal troseddu yn y rhanbarth.**

Mae gwerthusiad annibynnol a gynhaliwyd gan Brifysgol Aberystwyth, wedi dangos canlyniadau cadarnhaol o ganlyniad i fuddsoddiad y Comisiynydd yng ngwaith y partneriaethau troseddau ieuentid. Canfu fod gwaith atal yn bwysig o ran lleihau digwyddiadau troseddol, costau i'r gymuned a phlisma troseddau ieuentid, a diogelu pobl ifanc agored i niwed yn ehangach.



### Buddsoddi mewn gwasanaethau arbenigol er mwyn helpu i atal trosedd

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22, parhaodd y Comisiynydd i ariannu gwasanaethau hanfodol, â'r nod o fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol yn gynt a chefnogi troseddwyr i roi'r gorau i droseddu.

### Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr Grŵp Gofal a Chymorth Pobl

Ym mis Tachwedd 2021, dathlodd y Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr, sy'n weithredol ledled ardal Dyfed-Powys, dwy flynedd ers ei sefydlu.



Mae'r Cynllun yn caniatáu i droseddwyr cymwys gael y cymorth a'r arweiniad sydd ei angen arnynt i'w cadw allan o'r system cyfiawnder troseddol. Mae'n ceisio mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol yn gynt o lawer yn nhaith troseddu unigolyn. Mae'n mynd i'r afael ag achosion craidd troseddu a materion cymunedol ac iechyd cysylltiedig.

Drwy gyflwyno'r ymyrraeth gynnar hon, mae Pobl yn rhoi cymorth ac arweiniad i droseddwyr lefel is i'w helpu i gael mynediad at gymorth, a gwneud dewisiadau gwell. Mae gan hyn y potensial i leihau'r galw nid yn unig ar y gwasanaeth heddlu, ond hefyd asiantaethau a gwasanaethau iechyd eraill.

Mae'r Cynllun hefyd yn anelu i leihau nifer y dioddefwyr drwy gynnig rhaglen pedwar mis o ymyriadau i droseddwyr cymwys yn lle erlyniad. Mae troseddwyr yn derbyn asesiad cynhwysfawr, a datblygir rhaglen gymorth, â mynediad uniongyrchol at asiantaethau megis DDAS - Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, a Kaleidoscope.

“Yn hollbwysig, yr hyn mae'r Cynllun hwn yn ei wneud yw rhoi ail gyfle i bobl. Mae hwn yn gyfle iddynt fynd trwy gynllun dargyfeirio a fydd yn gweithio gyda nhw fel unigolyn, gan geisio deall y rhesymau tu ôl i'w troseddu a rhoi'r cymorth priodol iddynt. Mae tystiolaeth yn dangos fod yr ymagwedd hon yn arwain at ostyngiadau o ran aildroseddu. Drwy leihau'r troseddu, yn amlwg, yr ydym yn lleihau nifer y dioddefwyr yn yr ardal heddlu.”

Dafydd Llywelyn


## Yn ystod 2021-22:

- Cyfeiriwyd 491 o droseddwy.
- Ymgysylltodd 88% â'r gwasanaeth.
- Yr anghenion pennaf o fewn y garfan oedd: agweddau, meddwl ac ymddygiad, camddefnyddio sylweddau, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, cyllid a budd-daliadau, dyledion ac iechyd meddwl.
- Cwblhaodd a gadawodd 85% y cynllun yn llwyddiannus
  - Teimlodd 89% eu bod wedi'u grymuso i wneud dewisiadau cadarnhaol
  - Teimlodd 89% eu bod wedi'u grymuso i wneud newidiadau cadarnhaol
  - Adroddodd 90% am ddiogelwch gwell

Dangosodd gwerthusiad annibynnol o'r cynllun y buddion hyn a ddarparwyd gan y gwasanaeth, a dangosodd astudiaeth fod troseddwy a gymerodd ran yn y cynllun dargyfeirio 11% yn llai tebygol o droseddu yn y dyfodol na'r rhai nad oeddent yn ymgysylltu.

“Rwy'n teimlo mai fy rhai i i'w gwneud yw'r dewisiadau rwy'n eu gwneud yn fy mywyd i nawr. Yn y gorffennol, yr oeddwn yn teimlo bod pawb arall yn dweud wrthyf beth ddylwn i wneud. Dim rhagor - fy mywyd i ydyw, a fi sy'n gyfrifol am y dewisiadau rwy'n eu gwneud.”

– Adborth uniongyrchol gan gleientiaid



## Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau – DDAS, Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed a Kaleidoscope CAIS

Mae'r Comisiynydd wedi parhau â'i drefniant comisiynu ar y cyd â Bwrdd Cynllunio Ardal Hywel Dda ar gyfer cyflenwi gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Mae'r gwasanaeth hwn, a ddarperir gan DDAS - Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, a Kaleidoscope ym Mhowys, yn anelu i leihau niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, eu hanwyliaid a'r gymuned ehangach.

Mae'n hollbwysig fod y gwasanaethau hyn yn gweithio'n rhagweithiol i dargedu'r rhai sy'n achosi aflonyddwch mewn cymunedau lleol, ac eto, sydd ddim yn gysylltiedig yn rhagweithiol â gwasanaethau. Mae'r ddau sefydliad yn gweithio i adnabod troseddwr ac ymgysylltu â nhw o adeg yr arést hyd at y ddedfryd, ac uchafu cyfran yr unigolion sy'n cwblhau rhaglenni triniaeth yn llwyddiannus.



### Yn ystod 2021-22:

- 2,074 cyfeiriad (801 o ffynonellau cyflawnder troseddol)
- Gadawodd 64% o unigolion y gwasanaeth â diweddsglo cadarnhaol (e.e., bod yn rhydd rhag cyffuriau neu ymatal rhag troseddu)

Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi gweithio gyda phartneriaid yn ardal Powys i adolygu'r fanyleb ar gyfer gwasanaethau sydd angen i fodloni anghenion y boblogaeth, ac wedi ymgymryd ag ymarfer ail-gomisiynu er mwyn i wasanaethau gychwyn yn 2022-23.



### Ariannu Prosiectau i Atal Niwed

Mae sawl ffrwd incwm y gall y Comisiynydd ddewis eu defnyddio i ariannu prosiectau ac adnoddau ychwanegol i gefnogi blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

Yn ystod 2021-22, cafodd y Comisiynydd arian gan y canlynol a'i ddsbarthu:

1. Gwerthu Eiddo a Ddarganfuwyd – ar gyfer cyfraniadau i elusennau a grwpiau cymunedol;
2. Cynllun Cymell Adennill Asedau / Deddf Enillion Troseddu – ar gyfer cyfraniadau tuag

at wella a chefnogi ymchwiliadau ariannol yn ogystal â chyfraniadau tuag at elusennau a grwpiau cymunedol;

3. Fforffedu – cefnogi prosiectau sy'n gwella gorfodi cyffuriau a masnachu mewn pobl; ac
4. Ailhyfforddi Gyrwyr – cyfrannu at fentrau, ymgyrchoedd a gweithrediadau amrywiol, gan gynnwys prosiectau diogelwch ar y ffridd.

Buddsoddwyd y cronfeydd hyn mewn mentrau cymunedol, gweithrediadau a rolau Heddlu Dyfed-Powys, yn ogystal â gwaith partneriaeth.

# Buddsoddiad mewn Mentrau Cymunedol

Parhaodd y Comisiynydd i fuddsoddi mewn mentrau a grwpiau cymunedol lleol i'w galluogi i weithio gyda'u cymunedau i atal niwed.



## Menter PL Kicks yr Uwch-gynghrair

*'Yr Elyrch yn dod i gytundeb tair blynedd gyda Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd'*

Ariennir menter PL Kicks yr Uwch-gynghrair gan y Comisiynydd ac mae'n cael ei gynnal mewn partneriaeth â Sefydliad Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe.

Yn 2021, arwyddodd y Comisiynydd gytundeb 3 blynedd gyda Sefydliad Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe, gan roi grant o £300,000 i raglen 'Kicks' y Sefydliad ar gyfer cynnal sesiynau pêl droed wythnosol am ddim i blant a phobl ifainc 8-16 oed ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Mae'r bobl ifainc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol amrywiol, megis sesiynau hyfforddi pêl droed, yn ogystal â sesiynau anffurfiol sy'n mynd i'r afael â materion trosedd.

## Cynhelir sesiynau 'Kicks' Pêl Droed yn:

- Glan-y-môr, Llanelli
- Penfro
- Caerfyrddin
- Y Drenewydd
- Aberystwyth



Er mwyn cofrestru, cliciwch fan hyn <https://form.jotform.com/SwansFdn/KicksRegister>

Roedd y Comisiynydd yn falch iawn o fod yn rhan o ddatliad 15 mlynedd rhaglen Kicks yr Uwch Gynghrair ym mis Ionawr 2022, lle'r oedd yr Uwch Gynghrair yn dangos yr effaith y mae'r fenter yn ei chael ar gymunedau lleol drwy gyfres o fideos. Gwahoddwyd y Comisiynydd i gymryd rhan mewn fideo hyrwyddo lle gyflwynodd gerdyn Arwr Lleol o'r Uwch Gynghrair i Harri o Seaside, Llanelli oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun.



Gallwch wyllo'r fideo yma: <https://www.premierleague.com/news/2470156/>

**“Credwn fod y sesiynau hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar bobl ifainc i adeiladu cymunedau cryfach er mwyn lleihau ac atal trosedd.”**

Craig Richards, Rheolwr Ymgysylltu â Phobl Ifainc, Sefydliad Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe.

## Fforwm Llwynhendy a Phemberton

Mae'r Fforwm yn sefydliad cymunedol bach a ddatblygwyd gan drigolion, sy'n anelu at fod yn gyfrwng i fynd i'r afael â materion cymunedol. Mae'r Fforwm yn gweithio'n agos gyda Thimau Plismona Bro lleol Heddlu Dyfed-Powys i ddatblygu ymyriadau i wella diogelwch y cymunedau. Ar ôl digwyddiad ymgysylltu yn ymweld â'r ardal, cytunodd y Comisiwn i roi rhodd elusennol o £500 tuag at y sefydliad i'w helpu i barhau â'u gwaith yn y gymuned.

## Bugeiliaid Stryd Aberhonddu

Mae Bugeiliaid Stryd wedi bod yn gweithredu yn Aberhonddu ers pum mlynedd, gan ddarparu gwarcheidwaid effeithiol ar y stryd, gan atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r fenter hefyd yn mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.

Mae ymgysylltu rhwng y cyhoedd, yr heddlu a Bugeiliaid Stryd yn sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn, a bod llai o deuluoedd yn cael eu heffeithio gan effeithiau ehangach niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan y Bugeiliaid Stryd yn weladwy iawn, yn amhleidiol, ac yn cryfhau'r cyfle i ddinasyddion helpu i ddarparu plismona.

Yn y gorffennol, mae'r heddlu lleol wedi helpu i ddarparu hyfforddiant ac mae ganddynt berthynas ragorol â'r Bugeiliaid Stryd. Yn ogystal, mae hyfforddiant Ymddiriedolaeth Esgynnol yn hanfodol i'r rhaglen o ran rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r achrediad perthnasol i ymgeiswyr i gyflawni'r rôl ddibynadwy hon. Rhoddodd y Comisiynydd rodd o £500 i sicrhau bod y gwaith hollbwysig hwn yn parhau.

## Mewn Cymeriad - Gweithgaredd Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb

Ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref 2021, buddsoddodd y Comisiynydd £8,620 mewn cwmni theatr Mewn Cymeriad, i'w galluogi i weithio gyda Heddlu Dyfed-Powys i gynhyrchu drama fer i ddisgyblion blwyddyn 8 yn codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb.


Gwelodd y cynhyrchiad actor yn chwarae rôl tri pherson gwahanol - y cyflawnwr, yr un sy'n anwybyddu'r drosedd, a'r dioddefwr. Cefnogodd Tim Swyddogion Heddlu Ysgolion Heddlu Dyfed-Powys bob perfformiad gyda'r nod o annog trafodaeth agored am y pwnc.

**“Ni ddylid goddef trosedd casineb. Mae'n allweddol parhau i sgwrsio yn ein cymunedau ynghylch o ble y daw troseddau casineb a sut y gallwn i gyd chwarae rhan yn y gwaith o fynd i'r afael ag ef ac adrodd ar yr hyn a welwn ni. Gobeithio y bydd y gwaith hwn wedi addysgu pobl ifanc am eu cyfrifoldebau fel dinasyddion ifanc ac yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau iddyn nhw i helpu i herio'r agweddau a'r ymddygiadau sy'n arwain at droseddau casineb.”**

Dafydd Llywelyn

**“Un o'r dulliau mwyaf effeithiol o atal troseddau casineb yw addysgu plant cyn gynted â phosibl nad oes dim o'i le ar fod yn wahanol a bod troseddau casineb – efallai galw enwau ar rywun am fod ganddyn nhw liw croen gwahanol – bob amser yn anghywir.”**

Rheolwr Rhaglen Ysgolion Heddlu Dyfed-Powys, Bethan James



## Prosiect Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Cwch Adar Cilgerran

Treuliodd y Comisiynydd amser gyda'r Tim Plismona Bro yng Nghilgerran, yn dyst i'w gwaith cymunedol llwyddiannus. Un o'r prosiectau a oedd yn cael ei gynnal oedd prosiect troseddau gwledig LoRaWAN - darn synhwyrdd o offer sy'n anfon rhybudd at rif dynodedig pan fydd yn cael ei sbarduno.

Yn dilyn trafodaethau gyda rhanddeiliaid lleol, cyfrannodd y Comisiynydd £1,500 tuag at y prosiect hwn i alluogi'r Tim Plismona Bro i brynu mwy o synwryddion i'w gosod mewn ardaloedd sy'n dueddol o fod ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.



## Buddsoddiad yn Heddlu Dyfed-Powys

Buddsoddodd y Comisiynydd arian yn rolau a gweithrediadau penodol Heddlu Dyfed-Powys gyda'r nod o atal niwed a lleihau'r risg a'r effaith y mae troseddau difrifol yn eu cael ar gymunedau.

### Ymgyrch Deepdale

Yn dilyn mwy o bryder ymhlith y cyhoedd, rhanddeiliaid, a darparwyr economi ac addysg yn ystod y nos ynghylch yfed a sbeicio â nodwyddau, cysylltodd Heddlu Dyfed-Powys â'r Comisiynydd i ofyn am grant ar gyfer y gwaith hanfodol hwn.

Cytunodd y Comisiynydd i gyfrannu £2,996 tuag at y prosiect, i helpu i brynu offer caledu targed.


Gweithiodd y Cydlynnydd Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol a'r Cydlynnydd Partneriaeth gyda Thimau Plismona Bro i gyflwyno'r offer ar draws y pedair Ardal Plismona Lleol (siroedd), gan sicrhau cysondeb yn eu lleoliad. Defnyddiwyd yr adnoddau yn ardaloedd yr heddlu a oedd, yn ystadegol, yn peri'r bygythiad, y risg a'r niwed mwyaf i sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed yn cael eu hamddiffyn.

### Ymgyrch Darwen

Mae Ymgyrch Darwen yn ymgyrch Cymru gyfan sydd â'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth o ddiogelwch beiciau modur a lleihau nifer y rhai sy'n cael eu hanafu ar y ffyrdd.

Bob blwyddyn, mae Heddlu Dyfed-Powys yn cynllunio ac yn cynnal sawl diwrnod Ymgyrch Darwen, sy'n arwain at fwy o blismona gweladwy ar hyd rhai o'r systemau ffyrdd lleol mwyaf peryglus, gyda'r nod o leihau goryrru a damweiniau traffig ar y ffyrdd.

Yn 2021-22, cyfrannodd y Comisiynydd £11,950 tuag at gost gweithrediadau arfaethedig ac ymgyrchoedd diogelwch ar y ffyrdd.





## Swydd Cydlynnydd Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol

Mewn partneriaeth â Heddlu Dyfed-Powys, cytunodd y Comisiynydd i ariannu 50% tuag at gost swydd y Cydlynnydd Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol dros gyfnod o 12 mis. Roedd y rôl rhwng Awst 2020 a Gorffennaf 2021.

Mae'r Cydlynnydd Atal Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol yn gyfrifol am leihau effaith trais difrifol a throseddau cyfundrefnol ar gymunedau, gan ddargyfeirio'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn droseddwr trais difrifol a throseddau cyfundrefnol, a diogelu'r aelodau mwyaf agored i niwed o gymdeithas rhag cam-fanteisio troseddol. Mae'n newyddion cadarnhaol bod y swydd bellach yn barhaol o fewn Heddlu Dyfed-Powys.

## Cadetiaid Gwirfoddol Heddlu Dyfed-Powys

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn rhedeg Cynllun Cadetiaid Heddlu Gwirfoddol ledled ardal yr heddlu, wedi'i anelu at bobl ifanc rhwng 14 a 17 oed.

Mae Cadetiaid Gwirfoddol yr Heddlu yn darparu gwasanaethau i'n cymunedau, fel marcio beiciau, glanhau traethau, a chynnig cyngor pwysig ar atal troseddau i aelodau'r cyhoedd yn rheolaidd. Maen nhw hefyd yn cynorthwyo gyda gweithrediadau a digwyddiadau, gan gynnwys ceisio prynu nwyddau â chyfyngiad oedran fel alcohol fel rhan o weithrediadau a sydd wedi'u cynllunio ymlaen llaw, a bod yn farsialiaid mewn rasys hwyl.

Mae 7 uned ar draws Dyfed-Powys ac yn ystod 2021-22, rhoddodd y Comisiynydd rodd o £500 i bob uned i helpu gyda phethau fel prynu iwniformau, cymorth gyda chostau teithio ar ddiwrnodau cwrdd i ffwrdd, a hyfforddiant. Bydd y rhodd i bob uned yn caniatáu i'r cadetiaid barhau â'u gwaith amhrisiadwy o fewn cymunedau.

## Buddsoddi gyda Phartneriaid

Buddsoddodd y Comisiynydd arian ochr yn ochr â phartneriaid mewn prosiectau sydd â'r nod o atal niwed.

### Cyllid Strydoedd Diogelach y Swyddfa Gartref

Yn 2021-22, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref gylch ariannu newydd ar gyfer Strydoedd Diogelach 2, gyda gofyniad i gyfateb i'r swm y gofynnwyd amdano ar gyfer y cais.

Er mwyn cefnogi'r cais a ddatblygodd ymyriadau i leihau troseddau caffael a Thrais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG), cytunodd y Comisiynydd i gyfrannu arian cyfatebol i'r cais; £8,960.

Roedd hyn yn caniatáu i'r Comisiynydd a'i bartneriaid gyflawni prosiect llwyddiannus a arweiniodd at brynu offer gwella targedau, a datblygu rhaglen Hyrwyddwyr Cymunedol / rhaglen addysgol o amgylch VAWG.

### Prosiect Rhanbarthol Stelcio a Chyflawnwyr

Mae'r Comisiynydd yn bartner allweddol i Fwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu nifer o gynlluniau ac ymyriadau peilot ar gyfer y sawl sy'n cyflawni cam-drin domestig, ac mae rhai ohonynt yn enghreifftiau o arfer gorau o ran cyflawni mewn ardaloedd gwledig fel ardal Dyfed-Powys.

Ceisiodd y Bwrdd sefydlu darpariaeth gynaliadwy o'r gwasanaethau hyn yn ystod 2021-22, a chytunodd y Comisiynydd i gyfraniad o £19,850 ynghyd â'r holl bartneriaid strategol allweddol, er mwyn sicrhau bod yr ymyriadau allweddol hyn a gweithio mewn partneriaeth yn cael eu cyflawni a'u bod yn gynaliadwy.

# Troseddau Gwledig

Ym mis Gorffennaf 2021, etholwyd y Comisiynydd yn aelod o Fwrdd Gweithredol y [Rhwydwaith Troseddau Gwledig Cenedlaethol](#): Cydweithrediad unigryw rhwng Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr ac ystod eang o sefydliadau sydd â diddordeb mawr mewn diogelwch cymunedol a materion gwledig.

Mae'r Rhwydwaith yn gweithio tuag at weld mwy o gydnabyddiaeth a dealltwriaeth o broblemau ac effaith troseddu mewn ardaloedd gwledig fel y gellir gwneud rhagor i gadw pobl yn fwy diogel.

Mae mynd i'r afael â Throseddau Gwledig a Bywyd Gwyllt wedi bod yn un o flaenoriaethau'r Comisiynydd ers iddo gael ei ethol yn 2016. Ar ôl gweithio gyda Heddlu Dyfed-Powys i ddatblygu Tim Troseddau Gwledig, a chyda phartneriaid i sefydlu rôl genedlaethol Cydgysylltydd Troseddau Gwledig a Bywyd Gwyllt i weithio gyda holl heddluoedd Cymru, y Rhwydwaith Troseddau Gwledig Cenedlaethol oedd y cam rhesymegol nesaf i'r Comisiynydd.

Yn ystod 2020-21, ymrwymodd y Comisiynydd arian i fenter newydd ar y cyd â Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru – Future Farms Cymru, gyda'r nod o gynyddu'r defnydd o dechnoleg ar ffermydd er mwyn lleihau ac atal troseddu, a'i wneud yn haws ei ganfod. Parhaodd y gwaith hwn hyd at 2021-22, ac ym mis Gorffennaf 2021, ymwelodd y Comisiynydd ag un o ffermydd arddangos Future Farms Cymru yng Ngheredigion i weld effaith y dechnoleg ar ddiogelwch ar y fferm, yn ogystal â lles da byw.

[Ariannodd y Comisiynydd Brifysgol Aberystwyth i gynnal rhagor o ymchwil ar droseddau gwledig, y tro hwn ledled Cymru. Cyhoeddir yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2022.](#)

**“Drwy gael fy ethol i fwrdd gweithredol y Rhwydwaith Troseddau Gwledig Cenedlaethol, byddaf nid yn unig yn gallu rhannu arfer da o'n gwaith ni yma yn Nyfed-Powys, ond hefyd yn deall mwy am y gwaith sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r DU. Byddaf yn gweithio gydag aelodau'r Rhwydwaith i wneud ein cymunedau gwledig yn ddiogel.”**

Dafydd Llywelyn



## Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)


Roedd ail-fuddsoddi a gwella darpariaeth teledu cylch cyfyng ar draws ardal yr Heddlu yn un o flaenoriaethau allweddol y Comisiynydd pan ddaeth yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn 2016. Parhaodd yr addewid hwn i gyflawni ar gyfer cymunedau lleol yn ystod 2021-22, er gwaethaf y ffaith bod y rhaglen osod wedi'i gohirio rhywfaint oherwydd y pandemig COVID-19.

Gosodwyd un camera yn Arberth, a bydd dau arall yn cael eu gosod yn yr ardal yn ystod haf 2022. Gosodwyd un camera ychwanegol yn Rhydaman, a bydd camera ychwanegol yn cael ei osod ger Maes Sioe Frenhinol Cymru cyn sioe eleni.

Disgwylir i'r rhaglen a'r prosiect gosod teledu cylch cyfyng ehangach gael eu cwblhau yn ystod hydref 2022 pan fydd cyfanswm o 160 o gamerâu wedi'u gosod ar draws ardal yr heddlu ar draws 25 o drefi.

### Lleoliadau Camera

- Aberaeron
- Aberystwyth
- Rhydaman
- Aberhonddu
- Llanfair ym Muallt
- Porth Tywyn
- Aberteifi
- Caerfyrddin
- Abergwaun
- Hwlford
- Llanbedr Pont Steffan
- Llandrindod
- Llanelli
- Llwynhendy
- Machynlleth
- Aberdaugleddau
- Arberth
- Castell Newydd Emlyn
- Y Drenewydd
- Penfro
- Doc Penfro
- Saundersfoot
- Dinbych-y-pysgod
- Y Trallwng
- Ystradgynlais





# Blaenoriaeth 3: Sicrhau System gyfiawnder fwy effeithiol

Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid, cymunedau a dioddefwyr i wella hyder yn y system cyfiawnder troseddol.

## Y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys yn dod ag uwch gynrychiolwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n gweithredu yn ardal Dyfed-Powys at ei gilydd,

er mwyn gwella'r ffordd y darperir cyfiawnder a'r gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter ac yn cael ei gadeirio gan y Comisiynydd.

Gweledigaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol (LCJB) Dyfed-Powys yw i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol yn Nyfed-Powys, gan gynnwys gwella'r profiad i ddioddefwyr a thystion a magu hyder yn y system yn ei chyfanrwydd.

### Yn ystod 2021-22, cyflawnodd y Bwrdd y blaenoriaethau y maent yn eu rhannu â'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru:

- Ffocws ar ddioddefwyr a thystion, yn enwedig dioddefwyr sy'n dioddef o droseddau rhywiol difrifol;
- Pobl sy'n troseddu; ac
- Ymyrraeth gynnar ac atal; a
- Cydraddoldeb hiliol.

Mae aelodau'r Bwrdd hefyd wedi cyfrannu at ddarparu safleoedd tystiolaeth o bell ledled Cymru, gan ganiatáu i ddioddefwyr cam-drin domestig bregus roi tystiolaeth mewn amgylchedd diogel a'u helpu i gael y canlyniad gorau posibl o'u taith cyfiawnder troseddol.



Dyma rai straeon newyddion da gan y Bwrdd:

### 1. Gweithio ar draws Partneriaethau

Mae aelodau'r Bwrdd wedi canolbwyntio ar gysylltiadau traws-bartneriaeth y meysydd blaenoriaeth y LCJB uchod - mae'r Bwrdd bellach yn croesawu aelodau Bwrdd Cynllunio Ardal Dyfed a chynrychiolydd o'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Mae'r cysylltiadau hyn yn hanfodol wrth fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar agendâu niferus.

### 2. Cynlluniau Cyflawnwyr Cam-drin Domestig ar gael ar draws ardal Dyfed-Powys

Mae mynd i'r afael ag ymddygiad camdriniol y cyflawnwyr wedi bod yn ganolbwynt i waith strategol VAWDASV y Bwrdd yn rhanbarthol. Mae'r Bwrdd wedi anelu at sicrhau bod y gwaith hollbwysig hwn ar gael ac yn cael ei gyflawni'n gyfartal ar draws y rhanbarth, gyda phwyslais ar ymyrraeth gynnar ac atal. O ganlyniad i gyllid ychwanegol ac arloesedd a phenderfyniad darparwyr arbenigol, mae gan Ganolbarth a Gorllewin Cymru ymyrraeth cyflawnwyr cam-drin domestig rhanbarthol sy'n hygyrch yn gyson ar draws y rhanban. Mae hyn yn cynnwys:

#### ■ Canolfan Ymyrraeth Cam-drin Domestig

#### ■ Rhaglen Choice

#### ■ Cynllun peilot Cyflawnwyr Stelcio

Mae'r Bwrdd hefyd wedi llwyddo i sicrhau dyfarniad o ychydig o dan £500,000 o gyllid y Swyddfa Gartref, ynghyd ag arian cyfatebol, drwy Swyddfa'r Comisiynydd i gefnogi eu dull rhanbarthol o ymdrin â'r rhai sy'n cyflawni cam-drin.

### 3. Peilot Naloxone

Mae Naloxone yn feddyginiaeth sy'n gwrthdroi gorddos opioid yn gyflym. Yn bwysig, nid yw Naloxone yn cael unrhyw effaith ar rywun nad oes ganddynt opioidau yn eu system, ac nid yw'n driniaeth ar gyfer anhwylder defnyddio opioidau. Cafodd Bwrdd Cynllunio Ardal (APB) Dyfed £15k gan Lywodraeth Cymru i gynyddu darpariaeth a mynediad at Naloxone

ar draws ardal Hywel Dda. Gan weithio mewn partneriaeth â Heddlu Dyfed-Powys, Bwrdd Cynllunio Ardal Powys, Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed a Kaleidoscope, derbyniodd 45 o swyddogion heddlu rheng flaen hyfforddiant, gan ddechrau cario Nyxoid tra ar shifftiau ymateb o 1 Rhagfyr 2021. Roedd y cynllun peilot yn canolbwyntio ar orsafoedd heddlu yn Llanelli, Doc Penfro, Aberystwyth a Llandrindod. Bydd rhagor o orsafoedd yn cario Naloxone mewn amser fel rhan o'r broses o'i chyflwyno'n raddol.

Dim ond 9 diwrnod ar ôl lansio'r achos, cafodd PC Gareth Rees, un o nifer o swyddogion oedd yn cario'r chwistrell trwyn Nyxoid, ei alw at ddydd oedd mewn cyflwr meddw. Pan gyrhaeddodd y swyddog, roedd y dyn yn anymwybodol ac roedd ei anadl yn llafurus. Gan nodi hyn fel arwydd ei fod yn dioddef o orddos, rhoddodd y swyddog y chwistrell iddo. *"O fewn pump i ddeg eiliad roedd yn ymwybodol,"* meddai PC Rees. *"Mae'n anhygoel sut mae'n gweithio mor gyflym, yn bendant fe wnaeth wahaniaeth i'r dyn hwn."*

Adolygodd y Bwrdd ei gynllun cyflawni ar ddiwedd 2021-22 ac mae wedi cytuno ar flaenoriaethau a chymau gweithredu i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn i ddod.



Mae Cylch Gorchwyl y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn ogystal â Siart Strwythur ar gael ar wefan y Comisiynydd: <https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/bwrdd-cyfiawnder-troseddol/>

## Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru

Mae'r Comisiynydd, fel Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, yn aelod gweithgar o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, gan weithio gydag uwch gynrychiolwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol ledled Cymru i sicrhau dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael â'r

meysydd blaenoriaeth allweddol o gefnogi dioddefwyr, pobl sy'n troseddu, ymyrraeth gynnar ac atal a chydraddoldeb hiliol.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi darparu llwyfan parhaus i asiantaethau gydweithio i adfer darpariaeth gwasanaethau yn dilyn pandemig COVID-19, gyda llawer o wasanaethau'n addasu eu strwythurau a'u dulliau darparu.

## Adolygiad Diogelu Unedig Unigol

Mae'r prosiect Adolygiad Diogelu Unedig Unigol (ADUU) wedi parhau i symud yn gyflym dros y flwyddyn ddiwethaf. Y nod yw ei weithredu yn ystod hydref 2022.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Comisiynydd wedi parhau â'i waith ar y prosiect hwn, ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, Prifysgol Caerdydd, y Swyddfa Gartref, a rhanddeiliaid eraill o bob cwr o Gymru.

Y Comisiynydd yw'r Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer datblygu Ystorfa Ddiogelu Cymru, ac mae'n cadeirio'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen sy'n gweithio tuag at ei gweithredu'n llawn.

Nod cyffredinol y prosiect yw sefydlu ymagwedd Cymru gyfan tuag at gomisiynu, gan ddysgu o adolygiadau. Ynghyd ag YDdC arloesol a hygyrch, bydd y broses ADUU symlach a gwell yn helpu i sicrhau bod adolygiadau mwy effeithiol, effeithlon, moesegol a chynhyrchiol yn digwydd yng Nghymru.

Mae hwn yn gam hollbwysig tuag at wella arfer proffesiynol a diogelwch a lles cenedloedd y dyfodol mewn cymunedau ledled Cymru. Bydd YDdC yn hwyluso'r dysgu hwn drwy gynhyrchu adroddiadau thematig sy'n tynnu pwyntiau perthnasol o ADUUau at ei gilydd.

Yng nghyfarfod cyntaf Bwrdd y Gweinidogion ar gyfer y prosiect ADUU ym mis Ionawr 2022, a gadeiriwyd gan y Prif Weinidog Mark Drakeford, rhoddodd y Comisiynydd ddiweddariad ynglŷn â datblygiad YDdC, a rhoddwyd arddangosiad o'r ystorfa gan Brifysgol Caerdydd. Cafodd y prosiect dderbyniad gwresog. Bydd cyfarfod arall o Fwrdd y Gweinidogion yn cael ei gynnal yn 2022.

### Ers mis Medi 2021, mae nifer o ffrydiau gwaith pwysig dal yn cael eu cyflawni:

- Mae'r Tim ADUU wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid allweddol er mwyn datblygu'r Canllawiau Statudol ADUU. Mae hyn yn cyfuno'r prosesau Adolygiad Ymarfer Oedolion, Adolygiad Ymarfer Plant, Adolygiad Dynladdiad Domestig, Adolygiad Dynladdiad Iechyd Meddwl, ac Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol;
- Mae ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau'n parhau wrth galon y broses, ac mae adran ar gyfer y templed Adroddiad a Chanllawiau Statudol yn cael ei ddatblygu gan is-grŵp ymarferwyr er mwyn adlewyrchu hyn;
- Mae'r Pecyn Offer ADUU, sy'n cynnwys templedi safonol ar gyfer pob cam o'r broses ADUU, yn cael ei ddatblygu â mewnbwn yr ymarferwyr a fydd yn eu defnyddio yn y pen draw; ac
- Mae Adnoddau Hyfforddi ADUU yn cael eu creu, a fydd yn cynnwys enghreifftiau arfer gorau gan ymarferwyr ledled Cymru.

Bydd cyfraniadau'r Comisiynydd i'r prosiect hwn yn parhau tu hwnt i'w weithredu a thrwy'r cyfnod trawsnewid.



## Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr

Mae Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys i'w weld ar Siart Strwythur y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Ar dudalen 16 yr adroddiad hwn fe welwch fanylion am sut mae'r Fforwm wedi rhoi llais i ddiodeffwyr wrth wella'r system gyfiawnder.

Mynychodd tîm y Comisiynydd Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, gan atgoffa partneriaid cyfiawnder troseddol o waith y Fforwm a sut y gallent ymgysylltu â chronfa o ddiodeffwyr a goroeswyr sy'n barod i rannu eu hadborth ar eu profiadau, a'u hawgrymiadau ar gyfer gwelliannau.

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus rhaid i'r Comisiynydd gefnogi ymdrechion ar y cyd i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl.

I gefnogi Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, penodwyd y Comisiynydd yn Gyd-Gadeirydd Grŵp Gorchwyl Data a Pherfformiad Cydraddoldeb Hiliol Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.



Gweledigaeth Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru gyda'i Gynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth yw gwneud y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn decach, yn fwy effeithlon ac yn fwy effeithiol gyda gwrth-hiliaeth yn greiddiol.



Eu nod, sydd wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, yw i holl asiantaethau Cyfiawnder Troseddol Cymru ymuno'n frwd i roi'r weledigaeth ar waith.



Pwrpas y Grŵp Gorchwyl Data a Pherfformiad yw creu fframwaith perfformiad a dangosfwrdd i fonitro anghyfiawnder hiliol a chynrychiolaeth o fewn gweithlu partneriaid cyfiawnder troseddol yng Nghymru.



Ym mis Rhagfyr 2021, ariannodd a chynhaliodd y Comisiynydd sesiwn datblygu uwch arweinwyr, a fynychwyd gan 50 o swyddogion a staff o bob rhan o'r Heddlu.



Bwriad y sesiwn, lle siaradodd Cindy Ikie, Prif Weithredwr Sensei-M, ar Gysylltiadau Hiliol a Phlismaona yng Nghymru, oedd darparu ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chyflwyno her ar y cyd ynghylch yr hyn y mae'r Heddlu'n ei wneud o ran gweithredu cadarnhaol, gorfodi polisi a pholisïau gweithredol.



# Llysgenhadon Ieuenctid

## Siarter Hawliau Plant

Yn unol â gwaith y Fforwm Ymgysylltu â Phobl Ifanc, mae'r Comisiynydd a'i Lysgenhadon Ieuenctid yn parhau i hyrwyddo hawliau plant. Gan weithio'n agos gyda chyd-weithwyr o Heddlu Dyfed-Powys, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, datblygwyd Siarter Hawliau Plant ar y cyd, ac fe'i mabwysiadwyd yn swyddogol ym mis Medi 2021.



Mae'r Siarter Hawliau Plant yn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu rhoi ar flaen y gad yn ardal Dyfed-Powys. Gan fanylu ar yr hawliau sydd gan bobl ifanc wrth ddod i gysylltiad â'r sefydliadau dan sylw, mae'r Siarter chwe phwynt yn nodi sut y bydd yr asiantaethau hyn bob amser yn gweithio ar ran plant a phobl ifanc ac er budd gorau plant a phobl ifanc, gan eu trin â pharch ac yn gyfrinachol. O safbwynt yr heddlu, mae hyn yn cynnwys os ydynt wedi dioddef trosedd neu os cânt eu cyhuddo o dorri'r gyfraith.

Cafodd y Siarter ei llunio gyda phobl ifanc o bob rhan o ardal Dyfed-Powys yn dilyn ymarfer ymgysylltu sylweddol gyda phobl ifanc o bob oed. Fe'i crëwyd hefyd gyda chefnogaeth Comisiynydd Plant Cymru.



Cyfarfu disgyblion o Ysgol y Felin yn Sir Gaerfyrddin â Phrif Gwnstabl Dros Dro Heddlu Dyfed-Powys, Claire Parmenter; y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Dafydd Llywelyn; Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Maria Battle; a Phennaeth Atal ac Amddiffyn Corfforaethol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Peter Greenslade, mewn digwyddiad ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys yng Nghaerfyrddin i nodi lansiad swyddogol y Siarter.



## Fideo Hyfforddi – Profiad Pobl Ifanc o Gyswllt yr Heddlu

Yn [Adroddiad Blynyddol 2020-21](#), darparwyd gwybodaeth am ddatblygu fideo hyfforddi'r heddlu. Ers hynny, mae Llysgenhadon leuenticid y Comisiynydd wedi derbyn canmoliaeth genedlaethol am eu gwaith yn datblygu fideo byr sy'n rhannu profiadau pobl ifanc o gyswllt yr heddlu, gyda'r nod o chwalo rhwystrau a rhagdybiaethau rhwng pobl ifanc a'r heddlu.

Gweithiodd Llysgenhadon leuenticid y Comisiynydd yn llwyddiannus ochr yn ochr â'i Swyddfa i ymgysylltu â phobl ifanc leol sy'n barod i gymryd rhan yn y prosiect a rhannu eu profiadau. Ym mis Medi 2021, trosglwyddwyd

**“ Mae'r prosiect hwn wedi bod yn hanfodol i ni fel Llysgenhadon leuenticid y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, er mwyn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed, a bod cyfle inni ddylanwadu ar waith yr Heddlu. Hoffem ddiolch i'r Comisiynydd Dafydd Llywelyn am gefnogi'r syniad yn y lle cyntaf, ac am y cymorth i sicrhau bod ein gweledigaeth yn dod yn realiti. ”**

Celyn Mai Clement, Llysgennad leuenticid

y fideo yn swyddogol i Dîm Dysgu a Datblygu Heddlu Dyfed-Powys.

Croesawodd Heddlu Dyfed-Powys y fideo fel adnodd gwerthfawr, ac maent wedi cadarnhau ei fod yn rhan o gyrsiau hyfforddi ar gyfer staff a swyddogion yr heddlu yn Nyfed-Powys fel mater o drefn.



Nid oes fersiwn llawn o'r prosiect fideo ar gael yn gyhoeddus, ond gellir gweld fideo promo byr sy'n rhannu rhai o'r negeseuon yma: <https://vimeo.com/572436431/7e0f7d9859>

Bydd ymgyrch recriwtio er mwyn sicrhau Llysgenhadon leuenticid ychwanegol yn cael ei chynnal yn ystod 2022, yn ogystal ag ymgynghoriad â phobl ifanc ar gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

## Datblygiadau Hwb Plismona Sir Gaerfyrddin a'r Ddalfa

Rhodddwyd caniatâd cynllunio i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gan Gyngor Sir Gaerfyrddin yn ôl ym mis Ebrill 2021 ar gyfer y datblygiad arfaethedig, a fydd yn adeiladwaith cynaliadwy uchelgeisiol, gyda sgôr rhagoriaeth BREEAM. Fodd bynnag, roedd y caniatâd cynllunio yn cynnwys nifer o amodau yr oedd yn rhaid eu bodloni cyn y gallai gwaith adeiladu ddechrau.

Mae Wilmott Dixon, sef y Contractwr Adeiladu, wedi bod ar y safle ers hydref 2021. Bu i'r Comisiynydd ymweld â'r safle ym mis Chwefror, i gwrrd a'r adeiladwyr, ac i wirio ar y datblygiadau.



# Gwerthoedd

Er mwyn cyflawni gweledigaeth y Comisiynydd i '**gadw cymunedau Dyfed-Powys yn ddiogel**', mae'r Comisiynydd yn annog yr heddlu a'r systemau cyfiawnder troseddol i weithio'n effeithiol ac effeithlon drwy:



Gydweithio



Bod yn Atebol



Bod yn  
Gynaliadwy



Ymgysylltu'n  
Eang

## Cydweithio

“ Mae sefydliadau a chymunedau yn ardal Heddlu Dyfed -Powys yn cydweithio, ac mae ein anghenion a'n nodau yn gytbwys gyda'r rheiny o gyrff cyhoeddus eraill. ”

Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-25



### Llywodraeth Cymru

Drwy gydol 2021-22, parhaodd y Comisiynydd a'i dîm i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â chymheiriaid y Comisiynydd ledled Cymru a heddluoedd Cymru.

Mae **Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru**, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Weinidog, yn trafod ac yn cynghori ar faterion plismona. Caiff materion sy'n benodol i blismona eu hystyried gan holl Gomisiynwyr a Phrif Gwnstablaid Heddlu a Throseddu Cymru, ynghyd ag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru.



Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi ystyried y canlynol, ymhlith pynciau eraill: Cam-drin domestig a thrais rhywiol, camddefnyddio sylweddau, materion strategol a gweithredol sy'n deillio o faterion nad ydynt yn ymwneud â COVID-19 a COVID-19, a chydaddoldeb hiliol.



Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cofnodion y cyfarfodydd hyn ar eu gwefan: <https://llyw.cymru/bwrdd-partneriaeth-plismona-cymru>

Mae'r **Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona** yn rhoi cyfle i aelodau'r Senedd Cymru ymgysylltu â, a chlywed gan uwch arweinwyr yr heddlu ar blismona ledled Cymru, gan gynnwys Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Yn ystod 2021-22 parhaodd y Grŵp i gyfarfod yn rhithiol, a chyflwynwyd y pynciau canlynol i'w hystyried:

- **Trais a cham-drin domestig**
- **Natur newidiol y cyflenwad cyffuriau;**
- **Twyll a throseddau seiber**
- **Hil a chynhwysiant mewn plismona yng Nghymru;**
- **Effaith y pandemig ar weithlu'r heddlu;**
- **Rôl hanfodol partneriaethau lleol;**
- **Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru – gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Carchardai a'r Llysoedd; a**
- **Rhaglenni ymyrraeth gynnar**

Yn benodol, ym mis Mawrth 2022, amlinellodd y Comisiynydd i'r Grŵp sut yr oedd Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd wedi gweithio gyda Gweinidogion a rhanddeiliaid eraill ledled Cymru i ddylanwadu ar newid a chymryd rhan mewn dull 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus' gan ddod â gwasanaethau datganoledig a heb eu datganoli ynghyd.



Mae Senedd Cymru yn cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd y Grŵp ar eu gwefan: <https://business.senedd.wales/mgOutsideBodyDetails.aspx?ID=780>



Cyfarfu'r grŵp strategol **Plismona yng Nghymru** bedair gwaith yn ystod 2021-22. Yn cynnwys Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabiliaid pedwar heddlu Cymru, yn ogystal ag aelodau allweddol o'u timau eu hunain, nod y Grŵp hwn yw nodi a sicrhau cyfleoedd i gydweithio, ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gymunedau ledled Cymru a darparu llwyfan i gynrychioli plismona yng Nghymru ar y cyd wrth ymgysylltu â phartneriaid fel Llywodraeth Cymru.

Fel Cadeirydd Plismona yng Nghymru, mae'r Comisiynydd yn cyfarwyddo gweithgaredd **Uned Gyswllt yr Heddlu**, gan ei bod yn uniongyrchol atebol i'r grŵp strategol. Mae'r Uned yn gyfrifol am sicrhau ymgysylltiad rhwng y weinyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru, adrannau Llywodraeth y DU, rhanddeiliaid allweddol yn y byd cyfiawnder troseddol a chymdeithasol, a chynrychioli Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabiliaid yn y trafodaethau hynny.

Yn ystod 2021, dechreuodd y Comisiynydd a'i gymheiriaid yng Nghymru gyfres o gyfarfodydd gyda'r **Gweinidog Plismona**. Roedd hwn yn gyfle i'r Comisiynwyr godi neu gyfleu materion allweddol o'u hardal heddlu, ac i'r Gweinidog Plismona ddiweddarau'r Comisiynwyr ar faterion megis yr Adolygiad o Wariant a'r gyllideb.

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Fel un sy'n cael gwahoddiad statudol i bob un o'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ardal Dyfed-Powys, mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau canlyniadau cadarnhaol a chynaliadwy i gymunedau.

Yn ystod 2020-2021 mae'r Comisiynydd wedi gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys i gynnal eu hasesiad o anghenion llesiant a chynhyrchu blaenoriaethau drafft ar gyfer cynlluniau llesiant y dyfodol. Mae hyn yn rhoi cyfle ar gyfer gwaith traws-agenda, gan ddod â blaenoriaethau allweddol trosedd ac anhrefn i faes diogelwch cymunedol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Parhaodd gwaith partneriaeth agos ar draws y pedair Partneriaeth Diogelwch Cymunedol

drwy gydol 2021-22. Mae'r Comisiynydd wedi cefnogi'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol fel mater o drefn i ddatblygu prosiectau a oedd yn bodloni eu hamcanion diogelwch cymunedol lleol eu hunain yn ogystal â blaenoriaethau'r Comisiynydd. Roedd y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol hefyd yn rhanddeiliaid allweddol i'r Comisiynydd wrth ddatblygu ei Gynllun Heddlu a Throsedd.

Yn ystod 2021-22, mae gwerth £1,625 o gyllid a ddarparwyd i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin gan y Comisiynydd, yn sicrhau parhad prosiect LoRaWAN. Mae hyn yn cynnwys darn synhwyraidd o offer a fydd yn anfon rhybudd at y personél perthnasol pan fydd yn cael ei sbarduno gan dresmaswr posibl ar eiddo rhywun a allai arwain at drosedd meddiangar. Nodwyd tri safle posib ar gyfer gosod unedau gan y fenter gymdeithasol mewn partneriaeth â'r Heddlu.

## Cyflog Byw Gwirioneddol

Fel rhan o ymrwymiad ehangach Llywodraeth Cymru i waith teg yn ystod 2021, roedd uchelgais i weld cynnydd yn y cyflog byw gwirioneddol am bob awr waith yng Nghymru.

Ar ddechrau 2021, penderfynodd y Comisiynydd y byddai ei Swyddfa a Heddlu Dyfed-Powys yn dod yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol.

**“Ceisiais i fod ar flaen y gad yn y newid hwnnw.”**

Dafydd Llywelyn

Gan weithio mewn partneriaeth, llwyddodd y Comisiynydd a Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau bod yr Heddlu'n cael eu hachredu fel Cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol.

**“Rwy'n gobeithio, drwy ddangos fy arweinyddiaeth fel hyn, y byddaf yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gyflogwyr eraill yn genedlaethol ac o fewn fy ardal i ddilyn ein harweiniad wrth ddod yn gyflogwr cyflog byw gwirioneddol.”**

Dafydd Llywelyn



Dafydd Llywelyn a'r Prif Gwnstabl Dros Dro Claire Parmenter yn arwyddo cytundeb ymrwymiad Heddlu Dyfed-Powys i ddod yn Gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol.

Cytunodd y Comisiynydd hefyd i arwain grŵp gorchwyl rhanbarthol i gefnogi sefydliadau eraill i baratoi a chynllunio ar gyfer yr hyn y gallant ei wneud i helpu i gynyddu cyfran y gweithwyr sy'n derbyn cyflog sy'n adlewyrchu costau byw.

# Bod yn Atebol

Nododd Syr Robert Peel, wrth ddylunio heddlu moesegol, un o'i egwyddorion fel,

**“cydnabod bob amser fod pŵer yr heddlu i gyflawni eu swyddogaethau a'u dyletswyddau yn ddibynnol ar gymeradwyaeth gyhoeddus i'w bodolaeth, gweithredoedd ac ymddygiad, ac ar eu gallu i sicrhau a chynnal parch y cyhoedd”**



Mae trefniadau llywodraethu mewn grym er mwyn sicrhau bod atebolrwydd priodol ar bob lefel. Mae'r trefniadau hyn yn annog penderfyniadau gwell a defnydd effeithiol o adnoddau, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

Yn 2021-22, parhaodd y Comisiynydd i ryddhau ei rôl graffu drwy gynnal ei gyfarfodydd Bwrdd Plismona a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.

## Bwrdd Plismona

Fforwm a gynhelir bob pythefnos yw'r Bwrdd Plismona, lle mae'r Comisiynydd yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflwyno gwasanaethau plismona ledled ardal Dyfed-Powys.

Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, cyfarfu aelodau'r Bwrdd Plismona ar 16 achlysur, gan ganolbwyntio ar faes busnes penodol, a nodwyd ac a flaenoriaethwyd yn seiliedig ar alw gweithredol, effaith gymunedol a risg.

## Themâu 2021-22 y Bwrdd Plismona

Trais yn erbyn menywod a merched

Strwythur llywodraethu

Gwasanaethau Fforensig

Troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau

Bodlonrwydd dioddefwyr

Buddion a phrosiectau

Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu



Mae cofnodion y Bwrdd Plismona ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y Comisiynydd: <https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/bwrdd-plismona/>

Edrych ymlaen: O fis Ebrill 2022, bydd y Bwrdd Plismona'n mabwysiadu ymagwedd newydd – bydd cyfarfod cyntaf y mis yn canolbwyntio ar Berfformiad yr Heddlu, a bydd y cyfarfod bythefnos yn ddiweddarach yn canolbwyntio ar un o flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.



# Sgwrs y Comisiynydd Commissioner in Conversation

Comisiynydd Heddlu a Throsedd  
Dyfed-Powys  
Police and Crime Commissioner

**LIVE** • YN FYW LIVE 20:00 | 31.03.22



**Dr. Richard Lewis**  
Prif Gwnstabl  
Chief Constable

**Dafydd Llywelyn**  
Comisiynydd Heddlu a Throsedd  
Police and Crime Commissioner


## Sgwrs y Comisiynydd gyda'r Prif Gwnstabl

Ddiwedd Mawrth 2022, cynhaliodd y Comisiynydd ddarllediad 'Sgwrs y Comisiynydd' yn fyw ar gyfryngau cymdeithasol gyda Dr Richard Lewis, Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys.

Cynhaliodd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drafodaeth agored am yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, ac atebwyd ambell gwestiwn a gafwyd gan y rhai a oedd yn gwylio'r darllediad byw: Ffordd dryloyw iawn o ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif ynglŷn â gwasanaethau plismona lleol.

## Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu

Yn wahanol i'r Bwrdd Plismona, cyfarfod cyhoeddus chwarterol yw Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu. Cyhoeddir manylion pob cyfarfod ar wefan y Comisiynydd. Mae'r themâu a drafodwyd eisoes yng nghyfarfodydd y Bwrdd Plismona'n cael eu hystyried yn y fforwm agored hwn, yn ogystal â pherfformiad yr heddlu yn erbyn blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd.



## Bwrdd Cyngtori Comisiynu

Mae aelodau'r Bwrdd Cyngtori ar Gomisiynu yn cefnogi'r Comisiynydd mewn perthynas â dyfarnu cyllid grant neu dendro am wasanaethau.

Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar graffu ar weithgarwch a dwyn darparwyr gwasanaethau i gyfrif, a chawsant sawl mewnbwn ganddynt yn ystod 2021-22.

Mae aelodaeth y Bwrdd wedi'i hadnewyddu, gan ehangu'r gwahoddiad i ymuno â holl grwpiau gwirfoddol y Comisiynydd.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd y Bwrdd yn derbyn mewnbwn gan sefydliadau sydd wedi derbyn arian grant gan y Comisiynydd, yn ogystal â darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd.

Parhaodd gwaith craffu ehangach y Comisiynydd i gael ei asesu ar gyfer risg a chanolbwyntiodd ar feysydd pryder / diddordeb cyhoeddus sylweddol, gan geisio amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed rhag trosedd a sicrhau bod gwasanaethau cymorth priodol yn cael eu cyflwyno i ddioddefwyr trosedd.

## Panel Gwarediadau Tu Allan i'r Llys

Mae'r Panel Craffu ar Warediadau Tu Allan i'r Llys, a gydlynir gan Swyddfa'r Comisiynydd, yn dod â chynrychiolwyr o bob rhan o'r sector cyfiawnder troseddol, gan gynnwys Llysoedd, y Gwasanaeth Prawf, Timoedd Troseddau leuenctid a Gwasanaeth Erllyn y Goron, at ei gilydd.

Mae aelodau Panel yn asesu gwarediadau tu allan i'r llys (megis rhybuddion, datrysiadau cymunedol a gwarediadau adferol ieuencid) a gyhoeddir gan Heddlu Dyfed-Powys, yn craffu arnynt ac yn sicrhau eu hansawdd yn annibynnol. Maent yn gwneud argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyfathrebu canfyddiadau, hyrwyddo arfer gorau, ac yn nodi anghenion hyfforddi neu ddatblygiad polisi posibl sydd angen i'r Heddlu neu asiantaethau eraill cysylltiedig ystyried.

O fewn eu gweithgareddau craffu ar-lein yn ystod 2021-22, adolygodd y Panel 68 achos, gan ymdrin â throseddau cerbydau, cyflenwi cyffuriau, meddu ar arf, troseddau cyllyll, troseddau rhywiol, byrgleriaethau a lladradau, troseddau casineb, ac ymosodiadau yn erbyn gweithwyr brys.

Yn dilyn adborth gan y Panel, adolygwyd a diweddarwyd nifer o achosion er mwyn gwella rhesymeg neu gywirdeb y cofnodion trosedd. Yn ogystal â hyn, nodwyd anghysondebau, rhoddwyd adborth yn uniongyrchol i'r swyddogion cysylltiedig, a rhannwyd dysgu ehangach â'u Harolygwyr.

Yn ystod yr adolygiadau, nododd y Panel fod angen ceisio cymorth pellach ynglŷn â'r ffordd y mae plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi'n

gyson ar draws ffiniau'r heddlu. Adolygodd y Panel nifer o achosion lle'r oedd unigolyn ifanc mewn gofal wedi dod i gysylltiad â Heddlu Dyfed-Powys, ond a oedd wedi symud allan o'r ardal cyn neu yn ystod ei gyfeiriad i'r Timoedd Troseddau leuenctid. O'r herwydd, mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i weithio i "gadw pobl ifainc allan o'r system cyfiawnder troseddol drwy hyrwyddo model plismona a hysbysir gan drawma sy'n canolbwyntio ar y plentyn" drwy ei Gynllun Heddlu a Throseddau ar gyfer 2021-25. Yn arbennig, bydd y Comisiynydd yn cefnogi cyflwyno a gweithredu protocol cenedlaethol ar gyfer lleihau troseddoli plant a phobl ifainc sydd â phrofiad o ofal yn anghymesur.

## Cynlluniau Gwirfoddoli

Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd y Comisiynydd a'i dîm i weithio gyda gwirfoddolwyr a phaneli sy'n ei gefnogi i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu gwasanaethau heddlu effeithlon, effeithiol a chyfreithlon.

Mae'r Comisiynydd yn ddiolchgar i'r rhai sydd wedi parhau i wirfoddoli i'w Swyddfa fel rhan o'r Cynlluniau Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a Lles Anifeiliaid, ei Banel Sicrhau Ansawdd, a'r Fforymau Ymgysylltu leuenctid a Dioddefwyr.

Mae pob un yn helpu i fonitro a sicrhau proffesiynoldeb o fewn Heddlu Dyfed-Powys.

**“ Mae gwirfoddolwyr ar draws yr holl gynlluniau, panel a fforymau o fewn fy swyddfa'n chwarae rhan bwysig o fewn swyddogaeth graffu fy swyddfa, o ran fy helpu i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif. Rwy'n ddiolchgar i bawb sy'n gwirfoddoli i'm helpu i gyflenwi'r gwaith hollbwysig hwn. ”**

Dafydd Llywelyn

## Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalffa

Mae'n ofyniad statudol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau gael Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalffa.

Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalffa'n darparu sicrwydd annibynnol bod carcharorion yn cael eu trin yn briodol a theg gan Heddlu Dyfed-Powys.

Yn ystod y pandemig, lle'r oedd lefelau COVID-19 yn uchel a chyfyngiadau symud yn berthnasol, ffoniodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalffa dalfeydd er mwyn siarad gyda carcharorion a chynnal goruchwyliaeth o'r amgylchedd dalffa.

Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod gwiriadau lles ar garcharorion yn parhau yn ystod y pandemig a bod yr holl hawliau a rhyddidau dal yn cael eu rhoi, roedd tîm y Comisiynydd yn hap samplu cofnodion dalffa bob mis.

Er bod yr ymagwedd hon yn sicrhau bod y gwiriadau perthnasol yn parhau, ym mis Ionawr 2022, roedd hi'n dda gan y Comisiynydd weld ymweliadau corfforol gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalffa'n dychwelyd.

### Yn 2021-22...

- 26 Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalffa gweithredol
- 31 galwad ffôn i ddalfeydd
- 116 ymweliad corfforol â dalfeydd
- 250 carcharor yn y ddalffa yn ystod galwadau/ymweliadau
- Siaradwyd â 100 carcharor
- Gwelwyd 42 carcharor
- Adolygwyd 146 cofnod dalffa

## Cynllun Peilot Siwtiau Gwrth-niwed

Ym mis Medi 2021, ymunodd Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalffa'r Comisiynydd â Heddlu Dyfed-Powys a'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalffa i arwain ar gynllun peilot siwtiau gwrth-niwed.

Trwy'r cynllun peilot, mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalffa'n adolygu cofnodion dalffa carcharorion sydd wedi derbyn siwt gwrth-niwed yn annibynnol. Maen nhw'n ystyried pa un ai a oedd y siwt gwrth-niwed wedi'i gyhoeddi'n briodol, pa un ai a gafodd ei dynnu i ffwrdd cyn gynted â phosibl, a bod rhesymau digonol dros ei ddefnyddio wedi'u cofnodi ar gofnod dalffa'r unigolyn.

Yn gadarnhaol, ers mis Medi 2021, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y siwtiau sy'n cael eu cyhoeddi.




## Cynllun Lles Anifeiliaid

Mae Ymwelwyr Lleyg Er Lles Anifeiliaid y Comisiynydd yn gwirio ar les cŵn heddlu sy'n gysylltiedig â gwaith yr heddlu a'r amodau o dan ba rai y mae'r cŵn yn cael eu cadw, eu cludo a'u lleoli.

Disgwylir i Ymwelwyr Lleyg Er Lles Anifeiliaid ymweld â Thriniwr Cŵn a'i gŵn unwaith bob 6 mis o leiaf. Yn galonogol, yn 2021-22, ni nodwyd unrhyw faterion o ganlyniad i'r ymweliadau hyn.

Yn ystod y flwyddyn, cyn symud o Bencadlys yr Heddlu yng Nghaerfyrddin, cynhaliodd nifer o



Ymwelwyr Lleyg Er Lles Anifeiliaid archwiliad o'r cytiau cŵn heddlu newydd ym Mhen-bre, Sir Gaerfyrddin. Roedd modd iddynt roi adborth mewn perthynas â lles y cŵn a'r darpariaethau sydd ar gael.

### Yn 2021-22...

- 6 Ymwelydd Lleyg Er Lles Anifeiliaid
- 28 ymweliad â Thrinwyr Cŵn
- 49 ci wedi'i weld



## Panel Sicrhau Ansawdd

Mae 13 aelod Panel Sicrhau Ansawdd y Comisiynydd yn craffu ar ansawdd cyswllt yr Heddlu â'r cyhoedd mewn modd tryloyw ac annibynnol. Mae gweithgarwch craffu'r Panel yn cefnogi gwelliannau o fewn yr Heddlu.

### Cyfarfu'r Panel 5 gwaith yn 2021-22, gan adolygu:

- Digwyddiadau Troseddau Casineb;
- Digwyddiadau Stopio a Chwilio;
- Digwyddiadau Defnydd o Rym; a
- Llythyrau canlyniad adolygu cwynion;
- a galwadau i Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu.



Er mwyn darllen mwy am argymhellion a gweithgareddau'r Panel Sicrhau Ansawdd yn 2021-2022, galwch heibio i wefan y Comisiynydd:

<https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/cynlluniau-gwirfoddoli/panel-sicrhau-ansawdd/>

## Panel yr Heddlu a Throseddu

Darperir lefel arall o atebolrwydd gan Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, sy'n cynnwys aelodau a enwebwyd gan y pedwar awdurdod lleol yn ardal yr heddlu, gydag o leiaf ddau aelod annibynnol.

### Mae gan y Panel nifer o rolau a chyfrifoldebau, gan gynnwys:

- Adolygu Cynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd;
- Adolygu'r gyllideb blismona ddrafft flynyddol a chynnig praesept yr heddlu, gyda'r pŵer i roi fetu ar lefel y praesept;
- Delio â chwynion yn erbyn y Comisiynydd;
- Craffu ar benderfyniadau a chamau a gymerwyd gan y Comisiynydd;
- Adolygu penodiad neu ddiswyddo'r Prif Gwnstabl;
- Cefnogi gwaith y Comisiynydd;
- Cyflwyno adroddiadau neu argymhellion i'r Comisiynydd; ac
- Adolygu ymddygiad y Comisiynydd.
- Ni all y Panel graffu ar Heddlu Dyfed-Powys na'i waith.

The Panel cannot scrutinise Dyfed-Powys Police Force or its work.



Darganfyddwch fwy am Banel yr Heddlu a Throseddu yma: <https://www.dppoliceandcrimepanel.wales/>

Drwy gydol 2021-2022, parhaodd y Panel i gyflawni ei rolau a'i gyfrifoldebau drwy bum cyfarfod ffurfiol o'r Panel cyhoeddus, a dau sesiwn frifio anffurfiol gan y Comisiynydd.

### Yn y cyfarfodydd hyn, ystyriodd aelodau'r Panel, yn benodol:

- Gynllun Heddlu a Throseddu 2021-25;
  - Adroddiad Blynyddol 2020-21 y Comisiynydd;
  - Iechyd meddwl a phlisma; a
  - Perfformiad y Comisiynydd yn erbyn y dyletswyddau statudol yng Ngorchymyn Protocol Plismona 2011;
  - Y penderfyniadau a wneir gan y Comisiynydd;
  - Trefniadau ariannu grant; a
  - chynnig praesept yr heddlu 2022-23.
- Cynhaliodd y Panel hefyd wrandawriad cadarnhau ar gyfer penodiad y Prif Gwnstabl.



Gallwch weld Gorchymyn Protocol Plismona 2011 yma: <https://www.gov.uk/government/publications/policing-protocol-order-2011-statutory-instrument>

## Cwynion a Phryderon

Wrth graffu ar yr Heddlu, mae'r Comisiynydd yn ystyried cwynion a dderbyniwyd yn erbyn y Prif Gwnstabl. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion a materion ymddygiad yn erbyn swyddogion (islaw swydd y Prif Gwnstabl) a staff yr heddlu.

Ynghyd â chwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl, mae'r Comisiynydd a'i dim hefyd yn ystyried adroddiadau anafodlonrwydd gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch gwahanol faterion y maent wedi dod ar eu traws yn ardal ein Heddlu. Cyfeirir at y rhain fel 'Pryderon Cymunedol' ac maent yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio tri phrif gategori: 'Pryderon Personol' fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, pryderon traffig neu gam-drin domestig; 'Pryderon Sefydliadol' fel teledu cylch cyfyng, ariannol/cyllidebau neu anafodlonrwydd ynghylch arestio; a 'Phryderon Eraill' fel pryderon lleol/cenedlaethol neu bryderon nad ydynt yn gysylltiedig â phlisma.

### Niferoedd Cwynion a Phryderon 2021-22

Nifer y cwynion ffurfiol yn erbyn y Prif Gwnstabl	8
Nifer y cwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl a gofnodwyd	6
Nifer yr apeliadau yn erbyn y penderfyniad a wnaed i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu	2
Nifer yr apeliadau a gadarnhawyd o blaid penderfyniad y Comisiynydd	2
Cyfanswm pryderon cymunedol a dderbyniwyd	355
% Yr achosion sydd wedi cau a ddatryswyd o fewn 30 diwrnod gwaith	99.25%

## Adolygiadau Cwynion

Gwnaeth Deddf Plismona a Throsedd 2017 a'r rheoliadau ategol newidiadau sylweddol i systemau cwynion a disgyblu'r heddlu. Gwnaethant gyflwyno sawl newid a gynlluniwyd er mwyn sicrhau system gwyno sy'n canolbwyntio mwy ar y cwsmer. Mae'n bwysig datgan mai nod y diwygiadau yw gwneud y system ddisgyblaeth yn fwy cymesur ac annog mwy o bwyslais o lawer ar ddysgu o gamgymeriadau.

Ers 1 Chwefror 2020, os cofnodwyd cwyn unigolyn o dan Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 a bod yr unigolyn yn anhapus â chanlyniad ei gŵyn, gallant wneud cais am adolygiad i'r Corff Adolygu Perthnasol, naill ai Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) neu Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

### Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd i ystyried ceisiadau am adolygiad i benderfynu:

- A oedd y cais am adolygiad yn ddilys;
- A oedd canlyniad y gŵyn yn rhesymol ac yn gymesur; ac
- A ddylid gwneud unrhyw argymhellion i'r Heddlu oherwydd y ffordd yr ymdrinnwyd â'r gŵyn a/neu ganlyniad y gŵyn.

### Adolygiadau 2021-22

Cyfanswm yr adolygiadau dilys a dderbyniwyd	57
Cyfanswm yr adolygiadau a gwblhawyd	40
Cyfanswm a Gadarnhawyd	4
Cyfanswm a Gadarnhawyd yn Rhannol	2
Cyfanswm heb eu Cadarnhau	23
Cyfanswm sy'n mynd rhagddynt	17
Cyfanswm y Gwersi a Ddysgwyd / Argymhellion a nodwyd gan y Comisiynydd	11



Rhaid rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r achwynydd am ganlyniad adolygiad. Rhaid iddo gynnwys digon o wybodaeth er mwyn galluogi'r darllenydd i ddeall pa benderfyniadau ac argymhellion sydd wedi'u gwneud, a pham.

Ym mis Ionawr 2022, ystyriodd Panel Sicrhau Ansawdd y Comisiynydd ddeddioliad ar hap o 6 llythyr adolygu canlyniad cwyn a anfonwyd at achwynwyr gan Swyddfa'r Comisiynydd. Nod yr ymarfer craffu hwn oedd ystyried a oedd yr ymatebion i'r adolygiad o ganlyniadau cwynion a anfonwyd gan y Swyddfa yn glir ac yn hawdd eu deall.

Fe wnaeth aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd dynnu sylw at yr arferion gorau yn y llythyrau, cyflwyno sylwadau ar y llythyrau, a nodi ymholiadau i'w hystyried.

O ganlyniad i rai o'u sylwadau, drafftiodd a chynigiodd y Panel dempled llythyr newydd ar gyfer llythyrau adolygu canlyniadau cwynion. Roedd y templed newydd yn ystyried yr adborth penodol gan y Panel, er enghraifft, hyd y llythyr, yr iaith a ddefnyddiwyd, y cynnwys angenrheidiol, defnyddio atodiad a gwneud canlyniad y llythyr yn glir o'r cychwyn cyntaf. Gofynnodd y Panel i Swyddfa'r Comisiynydd ystyried y templed hwn, ac mae newidiadau wedi'u gwneud ers hynny.



Mae adroddiad llawn sy'n rhoi manylion canfyddiad y Panel Sicrhau Ansawdd ac ymateb Swyddfa'r Comisiynydd i'w weld yma: <https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/cynlluniau-gwirfoddoli/panel-sicrhau-ansawdd/>

## Cwynion yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau

Mae Panel yr Heddlu a Throseddau yn ymchwilio i unrhyw gwynion a wneir yn erbyn y Comisiynydd, yn annibynnol ar Swyddfa'r Comisiynydd.



Cyhoeddir Cofrestr o gwynion ar wefan y Panel: <https://www.panelheddluathroseddudp.cymru/cartref/y-comisiynydd/>

## Tryloywder

Caiiff y Comisiynydd ei ethol gan y cyhoedd a bydd yn cael ei ddwyn i gyfrif gan y cyhoedd yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Mae Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth am Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau gael ei chyhoeddi ac fe all y cyhoedd ei defnyddio wrth ddwyn Comisiynwyr i gyfrif. Bydd set gyson o wybodaeth sylfaenol a gyhoeddir hefyd yn caniatáu i'r cyhoedd gymharu ar draws ardaloedd yr heddlu. Dros y tair blynedd diwethaf, dyfarnwyd Nod Ansawdd Tryloywder i Swyddfa'r Comisiynydd gan CoPaCC (Cymharu Comisiynwyr Heddlu a Throseddau), yr arbenigwyr llywodraethu heddlu, i gydnabod safonau ansawdd uchel mewn perthynas â thryloywder strwythurau llywodraethu a chyhoeddi gwybodaeth.

Yn absenoldeb cyllid, yn anffodus, penderfynodd CoPaCC na allant bellach gynnal archwiliad tryloywder o wefannau Comisiynwyr Heddlu a Throseddau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

O gael Nod Ansawdd Tryloywder yn y gorffennol, mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi profi ei bod yn darparu gwybodaeth glir, amserol a chyson, gan arddangos ymrwymiad parhaus tuag at dryloywder. Er mwyn sicrhau bod Swyddfa'r Comisiynydd yn cadw ei safle mewn perthynas â thryloywder, mae'r wefan yn cael ei gwirio'n rheolaidd.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed penderfyniad i ddatblygu gwefan newydd ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd gan nad yw'r wefan bresennol wir yn cynrychioli'r Swyddfa ar ôl adnewyddu'r logo a'r brandio. Mae gwaith yn mynd rhagddo, ond unwaith bydd y wefan newydd yn cael ei chyhoeddi yn 2022, bydd y tîm yn sicrhau bod archwiliad annibynnol yn cael ei gynnal yn lle gwiriad CoPaCC er mwyn sicrhau bod gofynion statudol dal yn cael eu dilyn.

Mae manylion llawn y Gofynion Cyhoeddi Statudol, gyda manylion am sut mae hyn yn cael ei gyflawni, ar gael ar y wefan. Mae'n cynnwys yr angen am fanylion am ddeiliaid swyddi, staff, incwm a gwariant, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau, penderfyniadau a pholisïau. <https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/11101/transparency-index.docx>

## Safonau'r Gymraeg

Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd Swyddfa'r Comisiynydd i weithio'n agos â Heddlu Dyfed-Powys er mwyn sicrhau y glynir wrth Fesur y Gymraeg 2011, mae cynrychiolydd o'r Swyddfa'n mynd i gyfarfodydd chwarterol "Yr Iaith ar Waith" Heddlu Dyfed-Powys er mwyn bod ar y blaen gyda lefelau cydymffurfiaeth yr Heddlu.

Mae pob hysbyseb swydd o fewn y Swyddfa'n nodi bod y gallu i siarad Cymraeg yn gymhwyster dymunol, gyda rhai o'r swyddi mwy cyhoeddus yn nodi bod y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd. Mae bob aelod o staff yn cael cynnig gwersi Cymraeg. Ar hyn o bryd, mae 43% o'r tîm yn hyderus i siarad drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n sicrhau bod modd darparu ar gyfer y cais hwn os oes rhywun yn dymuno cyfathrebu â'r swyddfa drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022, cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ymarfer monitro, gan ganolbwyntio ar nodi bylchau a gwendidau yn nhrefn cyflenwi'r Swyddfa. Mewn meysydd allweddol o gyfathrebu, h.y. ffôn a gohebiaeth, perfformiodd y Swyddfa'n dda iawn, ac mae'n parhau i sicrhau bod Safonau'r Gymraeg yn cael eu cynnal a'u hybu fel blaenoriaeth.

## Cyd-bwyllgor Archwilio

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio'n darparu sicrwydd annibynnol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu; fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, gan gynnwys adrodd ariannol; prosesau llywodraethu blynyddol; a chanfyddiadau archwiliadau mewnol ac allanol.

Mae gwaith y Pwyllgor yn helpu i sicrhau bod trefniadau effeithiol ac effeithlon mewn grym, a gall eu barn gael ei hysbysu gan y craffu yr ymglymerir ag ef gan y Panel Heddlu a Throsedd.

Gwelodd 2021-2022 rai newidiadau i aelodaeth y Cyd-bwyllgor Archwilio. Daeth tymor Mr Malcolm MacDonald mewn swydd i ben ym mis Hydref 2021 ar ôl 8 mlynedd ar y Pwyllgor, a chymerodd Mr Martin Evans drosodd fel Cadeirydd. Gadawodd Ms Michelle Morris y Pwyllgor ym mis Chwefror 2022 am ei bod wedi'i phenodi fel yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus nesaf. Yn dilyn ymgyrch recriwtio ym mis Mawrth 2022, mae dau Aelod newydd wedi'u penodi'n llwyddiannus i'r Pwyllgor. Byddant yn cychwyn eu swyddi yn 2022.

## Archwilio Mewnol

Mae cynllun archwilio cytunedig mewn grym gydag archwilyr mewnol y Comisiynydd, TIAA. Maen nhw'n targedu adnoddau at feysydd risg a phryder a nodwyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio'n craffu ar y Cynllun Archwilio Mewnol cyn iddo gael ei gymeradwyo, ac mae'r Pwyllgor yn ystyried canfyddiadau archwiliadau. Yn 2021-22, ystyriodd y Cyd-bwyllgor Archwilio'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2022-23.

### Roedd Archwiliadau Mewnol a gynhaliwyd yn ystod 2021- 2022 yn cynnwys:

- Adolygiadau o Reoli Cyllidebol,
- Llywodraethu – Datblygu'r Cynllun Heddlu a Throsedd;
- Uned Rheoli Adnoddau;
- Fetio – anghyfartaledd o ran recriwtio;
- Rheoliadau Lliniarol Rheoli Risg; ac
- Adolygiad TGCh o Reoli Newid.

Yn ogystal â'r archwiliadau mewnol hyn, ystyriodd y Cyd-bwyllgor Archwilio adroddiadau archwilio cydweithredol Cymru gyfan, gan gynnwys Adolygiad Sicrwydd o Bensiynau – Canolfan Bensiynau Cymru Gyfan, Adolygiad Sicrwydd o Bartneriaeth Camerâu Diogelwch Cymru, a'r adolygiad o Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig.

## Archwiliad Allanol

Archwilio Cymru yw archwilwyr allanol penodedig y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Bob blwyddyn, maent yn rhoi sylwadau ar agweddau ariannol llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys cyfreithlondeb trafodion ariannol, systemau ariannol sefydlog, systemau rheolaeth ariannol fewnol a safonau ymddygiad ariannol, twyll a llygredd.

Mae gan Archwilio Cymru hefyd ddyletswydd statudol i asesu trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, a chynhaliodd adolygiad Gwerth am Arian o drefniadau cydweithio.

## Achos Pryder Cyflym

Ar 7 Mai 2021, cyhoeddodd AHGTAEM 'Achos Pryder Cyflym' mewn perthynas ag Uniondeb Data Troseddau Heddlu Dyfed-Powys. Cymerir y camau hyn pan fydd HMICFRS yn "darganfod methiannau gwasanaeth sylweddol neu risgiau i ddiogelwch y cyhoedd".

Dywedodd AHGTAEM fod Heddlu Dyfed-Powys wedi methu â gwneud y gwelliannau disgwylidig ers ei harolygiad Cywirdeb Data Troseddau diwethaf yn 2018: *"Mae Heddlu Dyfed-Powys yn rhy aml yn methu â chofnodi adroddiadau o droseddau treisgar, yn enwedig cam-drin domestig ac ymddygiad gwrthgymdeithasol tuag at bobl."*

Gwnaethant nifer o argymhellion i'r Heddlu er mwyn mynd i'r afael â'r mater. Mae'r Comisiynydd

a'i swyddfa wedi cadw arolygiaeth o gynllun gwella'r Heddlu drwy fynychu cyfarfodydd llywodraethu'r Heddlu a chraffu drwy'r Bwrdd Plismona a'r Bwrdd Atebolrwydd Plismona.

Roedd rhan o'r gwelliannau arfaethedig yn cynnwys cyflwyno'r prosiect 'O'r Dechrau i'r Diwedd'. Wedi'i gyflwyno ym mis Tachwedd 2021, roedd y prosiect yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr a lleihau'r galw ar blismona rheng flaen trwy wella prosesau. Mae'r Comisiynydd a'i dîm wedi bod yn derbyn briffiau rheolaidd ar gynnydd y prosiect a bydd yn cynnal adolygiad llawn o lwyddiant y prosiect yn hydref 2022.

Disgwylir canlyniadau ailarylygiad AHGTAEM o Heddlu Dyfed-Powys ym mis Gorffennaf 2022.

## AHGTAEM

Mae Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM) yn asesu Heddlu Dyfed-Powys yn annibynnol. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Comisiynydd ystyried yr holl asesiadau ac ymateb iddynt.



Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, ymatebodd y Comisiynydd i 18 adroddiad archwiliad unigol gan AHGTAEM. Mae pob un ohonynt ar gael i'w darllen ar wefan y Comisiynydd: <https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/perfformiad-yr-heddlu/hmic/>





## Adroddiadau Arolygiadau AHGTAEM.

### Ebrill 2021

Defnydd anghymesur o bwerau'r heddlu – sbotolau ar stopio a chwilio a'r defnydd o rym  
Cael y cydbwysedd iawn? Archwiliad o ba mor effeithiol mae'r heddlu'n ymdrin â phrotestiadau

### Mehafin 2021

Plismona yn y pandemig – ymateb yr heddlu i'r pandemig coronafeirws yn ystod 2020

Gwasanaethau'r ddalfa mewn amgylchedd COVID-19

### Gorffennaf 2021

Achos Pryder PEEL mewn perthynas ag unplygrwydd data trosedd

Uwch-gŵyn Hestia ar ymateb yr heddlu i ddiodefwrwr caethwasiaeth modern

Plismona cam-drin domestig yn ystod y pandemig - 2021

### Awst 2021

Adroddiad interim: Archwiliad i ba mor effeithiol mae'r heddlu'n ymgysylltu â menywod a merched

Archwiliad thematig ar y cyd o ymateb yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i drais – Cam un

Niwro-amrywiaeth yn y system cyfiawnder troseddol: Adolygiad o dystiolaeth

### Medi 2021

Cyflwr Plismona: Aseiad Blynyddol o Blismona yng Nghymru a Lloegr 2020

Cyfrinachedd a rennir: Crynodeb o'r ffordd y mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn defnyddio cudd-wybodaeth sensitif

Adroddiad Sbotolau Adolygiad o Dwyll: Amser i Ddewis

### Hydref 2021

Uwch-gŵyn – dyletswydd i amddiffyn: Defnydd yr heddlu o fesurau amddiffynnol mewn achosion o Drais yn Erbyn Menywod a Merched

### Tachwedd 2021

Adroddiad terfynol: Archwiliad i ba mor effeithiol mae'r heddlu'n ymgysylltu â menywod a merched

Ymateb i'r heddlu i drais yn erbyn menywod a merched

### Rhagfyr 2021

Diweddariad: Gweithredu Argymhellion o Uwch Gŵyn Heddlu – Rhannu Data Heddlu ar gyfer Dibenion Mewnffudo

### Ionawr 2022

Archwiliad thematig ar y cyd o'r daith cyfiawnder troseddol ar gyfer unigolion ag anhwylderau ac anghenion iechyd meddwl

# Bod yn gynaliadwy

“Rydym yn cynnal ac yn gwella amgylcheddau cymdeithasol, sy'n cefnogi cadernid economaidd ac ecolegol, sy'n gyson ag amgylcheddau naturiol bioamrywiol ac ecosystemau iach. Mae hyn yn cefnogi'n hymrwymiad a'r gallu i addasu i newid, gan gydbwysu anghenion tymor byr â'r angen ar gyfer diogelu ein dyfodol.”

Cynllun Heddlu a Throseddau 2021-25



## Grŵp Cynaliadwyedd

Mae Grŵp Cynaliadwyedd Dyfed-Powys wedi bod yn gweithredu ers dros dair blynedd, gyda chadeirydd penodol. Mae'r Grŵp wedi sicrhau a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r mentrau canlynol, gan gydweithio â sefydliadau partner i leihau ôl troed carbon cyffredinol Heddlu Dyfed-Powys a'i effaith ar yr amgylchedd:

- Strategaeth Ddrafft Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio Cymru Gyfan wedi'i chyflwyno a gweithgorau wedi'u sefydlu;
- Erbyn 2050 bydd y sefydliad yn 'Sero Net', gyda'r Grŵp yn cytuno ar dargedau ar gyfer 2030, yn unol â'r gofynion a bennwyd gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid Heddlu Cymru Gyfan a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau;
- Cynllun Datgarboneiddio wedi'i gyflwyno ym Mhencadlys yr Heddlu, yn cynnwys arolwg llawn o'r safle a chynllun manwl i ddatgarboneiddio'r ystâd trwy fentrau amrywiol. Hwn oedd cam cyntaf y cynllun, ac mae gwaith yn parhau;
- Cynllun Bioamrywiaeth ar waith ar draws ystâd yr heddlu, gan gynnwys: y 'no mow May' a dolydd blodau gwylt;
- Yn ystod 2021-22, cyflawnwyd cronfa ddatgarboneiddio £887k Cyllid Salix yn y Pencadlys - Inswleiddio Lloffttydd, goleuadau LED, paneli solar, a phrosiectau Rheoli Gwresogi ac Oeri;

- Monitro cyfleustodau a monitro'r defnydd ohonynt ar waith yn lleol, gan leihau ein galw a'n defnydd;
- Boeleri biomas ar waith ym mhencadlys yr heddlu, gan leihau ein dibyniaeth ar wres wrth gefn eilaidd a dŵr poeth o'r Boeleri Olew;
- Seilwaith gwefru'r Fflyd Cerbydau Trydan bellach mewn 8 safle allweddol ar draws ardal yr heddlu, wedi'i alinio â'r Timau Plismona Bro presennol a'r fflyd ganolog o gerbydau trydan. Trafodaethau wedi'u cynnal gyda phartneriaid mewn perthynas â defnyddio seilwaith codi tâl ar y cyd lle bo hynny'n bosibl;
- Cynllun Cyfalaf 10 mlynedd wedi dyrannu arian i ddatgarboneiddio ein Hystâd a chyflwyno rhagor o gerbydau trydan wrth i'r dechnoleg ddatblygu;
- Caffael Cynaliadwy a gefnogir gan WRAP Cymru – yn y dyfodol bydd cynaliadwyedd ynghlwm wrth holl broses ein gweithgareddau caffael a bydd o leiaf 10% wedi'i ddyrannu i sgorio sy'n cyd-fynd â chost ac ansawdd;
- Cymeradwyaeth wedi'i roi i Hwb Plismona a Dalfa newydd, Dafen, Llanelli gael ei adeiladu i safon BREEAM Rhagorol ac yn gwbl drydanol: paneli solar ar y to, dŵr llwyd ar gyfer fflysio toiledau, galluoedd gwefru cerbydau trydan staff a'r heddlu, a dim tanwydd ffosil yn cael ei ddefnyddio.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd y Grŵp Cynaliadwyedd yn parhau i nodi cyfleoedd newydd ac yn cydweithio â phartneriaid i gysoni perfformiad ac effeithiolrwydd y dyfodol yn y pwnc ehangach ac amrywiol hwn.

## Gweithio Ystwyth

Drwy gydol 2021-22, parhaodd gweithio ystwyth o fewn Swyddfa'r Comisiynydd, wedi'i hyrwyddo gan y Comisiynydd. Roedd y rhan fwyaf o dîm y Comisiynydd yn gweithio gartref, gan weithio'n effeithlon i'w gefnogi i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, a chynnal lefel uchel o wasanaeth i'r cyhoedd a phartneriaid.

Adroddwyd am gostau cyfleustodau yn Adroddiad Blynyddol 2020-21, gyda gostyngiad o £107,623 yn cael ei arddangos oherwydd mabwysiadu ffordd fwy hybrid o weithio. Er

nad oedd yn ffigur mor sylweddol, gwelwyd gostyngiad pellach rhwng 2020-21 a 2021-22.

Gan edrych i'r dyfodol, gyda chyhoeddi'r Polisi Gweithio'n Glyfrach, bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn parhau â'i harferion gwaith ystwyth, gyda rhan o'r wythnos waith yn cael ei threulio yn y Swyddfa.

	2019-20	2020-21	2021-22
Cyfanswm costau'r Pencadlys	£447,657	£340,034	£300,285
Gostyngiad O...		£107,623	£39,749

## Darparu gofod swyddfa i Wasanaeth Ambiwylans Cymru

Yn ystod 2020-21, lleihaodd Swyddfa'r Comisiynydd o ran maint corfforol gan ddarparu 30% o ofod swyddfa i Wasanaeth Ambiwylans Cymru.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22, gofynnodd Gwasanaethau Ambiwylans Cymru am ragor o le. Gan ganolbwyntio ar weithio ystwyth i'w dîm ei hun, rhoddodd y Comisiynydd sêl bendith ar ddarparu rhagor o swyddfeydd, gan arwain at drosglwyddo 65% o'r Swyddfa wreiddiol i Wasanaeth Ambiwylans Cymru.


## Hen Orsaf Heddlu yn cael ei defnyddio fel Hwb ar gyfer banc bwyd lleol a phrosiectau cymunedol

Cafodd Gorsaf Heddlu Cydweli yn Sir Gaerfyrddin, nad yw bellach yn orsaf weithredol, ei gosod ar brydles i CETMA yn ystod 2021-22, ac mae bellach yn cael ei defnyddio fel canolfan banc bwyd ar gyfer cymunedau lleol.

Yn ogystal â rhedeg y banc bwyd lleol, mae CETMA yn ymwneud â nifer o brosiectau cymunedol gyda'r nod o wella'r ardal. Mae'r Prosiect Megan a'r Sgwad Bwyd yn enghraifft

o raglen addysgiadol a ddatblygwyd gan CETMA, a ariannwyd gan Sir Gâr, ac sy'n cael ei redeg o'r hen Orsaf Heddlu, sydd â'r nod o addysgu plant a phobl ifanc am fanteision tyfu bwyd, pwysigrwydd bwyta'n iach, ac effeithiau gwastraff bwyd ar ein hamgylchedd.

Yn ystod mis Mawrth 2022, ymwelodd y Comisiynydd â'r safle i ddysgu mwy am y gwaith cymunedol sy'n cael ei wneud o'r hen orsaf.





# Ymgysylltu'n eang

Mae'r Comisiynydd yn ceisio hyrwyddo a datblygu cysylltiad cymunedol gwell mewn plismona, ac mae'n dymuno sicrhau bod pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal heddlu'n gysylltiedig â phenderfyniadau sy'n bwysig iddynt.

Drwy gydol 2021-22, ymgysylltodd y Comisiynydd a'i dîm â'n cymunedau lleol, ac ymgynghorodd â nhw ar faterion plismona pwysig.

## Gweithgareddau Ymgysylltu'r Comisiynydd

Yn 2021-22 gwelwyd cynnydd mewn gweithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb ar gyfer y Comisiynydd a'i dîm, gan gynnwys ailgyflwyno Diwrnodau Ymgysylltu â'r Gymuned personol.

Mae'r dyddiau hyn yn gyfle i'r Comisiynydd gwrdd ag amrywiol bartneriaid, sefydliadau a gwasanaethau a gomisiynir, a thrigolion i drafod materion plismona.

Cynhaliodd y Comisiynydd 6 Diwrnod Ymgysylltu â'r Gymuned yn ystod 2021-22, gan ymweld â Llanelli ddwywaith (roedd un yn ddiwrnod thema), Cydweli, Hwlfordd, Llandrindod, a Thalgarth, Aberhonddu a'r Gelli Gandryll.

Fel rhan o ddiwrnodau ymgysylltu Llanelli, Cydweli a Thalgarth, Aberhonddu a'r Gelli Gandryll, cyfarfu'r Comisiynydd â nifer o gynrychiolwyr cymunedol, gan gynnwys Cynghorwyr, cynrychiolwyr busnes, elusennau, a phrosiectau cymunedol, i drafod materion lleol a'r gwaith sy'n cael ei wneud yn yr ardaloedd.

Yn ystod Diwrnodau Ymgysylltu â'r Gymuned Hwlfordd a Llandrindod, ymwelodd y Comisiynydd â grwpiau cymunedol a oedd wedi derbyn cyllid drwy ei fenter Cyllidebu Cyfranogol.



Mae Cyllidebu Cyfranogol yn ffordd o roi mwy o lais i gymunedau o ran sut mae arian yn cael ei wario yn eu hardaloedd lleol. Yn ystod 2020-21, cynhaliwyd digwyddiadau Cyllidebu Cyfranogol rhithwir ar draws pob un o'r 14 ardal plismona bro. Cyflwynodd grwpiau cymunedol sy'n gwneud cais am arian eu syniadau prosiect, a phenderfynodd cynrychiolwyr cymunedol pwy ddylai dderbyn y cyllid. Elwodd dros 100 o grwpiau cymunedol o fwy na £200,000.

Yn ystod y Diwrnod Ymgysylltu â'r Gymuned yn Llandrindod, cyfarfu'r Comisiynydd â chynrychiolwyr o Ddigwyddiadau Cymunedol Llandrindod, Ymddiriedolaeth Bracken, POBL, Dementia Matters ym Mhowys, a'r Gymdeithas Bowls.



Roedd aelodau o Ddigwyddiadau Cymunedol Llandrindod yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiynydd am sut roedd ei gyllid wedi bod o fudd i'r gymuned leol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, glwb pysgota am ddim i blant lleol hyd at 16 oed, gwersi caiacio, a chreu ardal goetir i grwpiau cymunedol lleol ei defnyddio.



### Yn ystod y Diwrnod Ymgysylltu â'r Gymuned yn Hwlfordd, cyfarfu'r Comisiynydd â:

- Caffi 'Get the boys a lift' a dderbyniodd arian i sicrhau eu bod yn dal i allu cynnig cymorth cwnsela hanfodol trwy gydol y cyfnod clo, er bod eu caffi ar gau i'r cyhoedd;
- Ysgol Uwchradd Hwlfordd a dderbyniodd arian i brynu offer radio i'w disgyblion fel rhan o'u sesiynau Lles Gwener ar ôl ysgol; a'r
- VC Gallery, sy'n darparu gwasanaeth lles a chymorth i gyn-filwyr y lluoedd arfog a'r gymuned ehangach ledled Sir Benfro.



Roedd yr ail ymweliad â Llanelli'n canolbwyntio ar ddiogelwch ar y ffyrdd. Croesawodd y Comisiynydd gerbyd Prosiect EDWARD i ardal yr heddlu, ac ymgysylltodd â thrigolion yn Nafen, Llanelli - un o 8 ardal yng Nghymru a fu'n rhan o gynllun pilot Llywodraeth Cymru ar gyflwyno terfynau cyflymder 20mya mewn ardaloedd preswyl. Yma, cyfarfu'r Comisiynydd â gwirfoddolwyr Gwylio Cyflymder Cymunedol a staff GanBwyll. Bu hefyd yn cymryd rhan yng ngweithdy Megadrive Cyngor Sir Caerfyrddin yn Ysgol y Strade i hybu diogelwch ar y ffyrdd ymhlith gyrwyr newydd, ac ymwelodd ag Uned Plismona'r Ffyrdd Dyfed-Powys yn Cross Hands.



# Ymgynghoriadau

## Penodi Prif Gwnstabl

Yn gynnar ym mlwyddyn ariannol 2021-22, cynhaliodd y Comisiynydd broses recriwtio ar gyfer Prif Gwnstabl newydd. Fel rhan o hyn, estynnodd y Comisiynydd allan at bartneriaid, preswylwyr a dioddefwyr trosedd er mwyn canfod beth oedd yn bwysig iddyn nhw o ran rhinweddau a nodweddion Prif Gwnstabl.

*Beth yw priodoleddau Prif Gwnstabl llwyddiannus yn yr ardal hon yn eich tyb chi?*

Gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r Fforymau Ymgysylltu â Dioddefwyr a Phobl Ifainc, a phaneli a chynlluniau gwirfoddolwyr y Comisiynydd, i eistedd ar banel ar gyfer cyfweld ag ymgeiswyr hefyd.

Ystyriwyd yr holl adborth a dderbyniwyd drwy'r gweithgareddau uchod gan y Comisiynydd fel rhan o'r broses o ddethol Prif Gwnstabl.

**“Mae'n rhaid i'r cyhoedd barhau'n ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud a phob penderfyniad a wnawn.”**

Dafydd Llywelyn



## Ymgynghori ar y Cynllun Heddlu a Throseddu

Yn dilyn canlyniadau ymgynghoriad 2020-21, lle yr holwyd preswylwyr a phartneriaid am eu barn ynglŷn â'r hyn y dylai Heddlu Dyfed-Powys flaenoriaethu, ac i baratoi ar gyfer datblygu ei Gynllun Heddlu a Throseddu drafft, ceisiodd y Comisiynydd adborth pellach o bob cwr o'n cymunedau ar y 5 maes plismona allweddol yn ystod 2021-22:

1. Dioddefwyr
2. Mynediad
3. Atal
4. Cyfiawnder
5. Cynaliadwyedd

Roedd ymagwedd 3 haen tuag at ymgynghori:

1. Sesiynau wedi'i hwyluso gyda grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed cymaint;
1. Gwahodd partneriaid a grwpiau diddordeb arbennig yn bersonol a'u hannog i gymryd rhan;
1. Cyfathrebu â'r cyhoedd cyffredinol.

Roedd y safbwyntiau a dderbyniwyd o ganlyniad i'r gweithgaredd hwn wedi llywio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Heddlu a Throseddu drafft 2021-2025.

## 'Blaenoriaethau Plismona a Chyllid 2022/23 – Mynnwch ddweud eich dweud'

Ym mis Hydref 2021, lansiodd y Comisiynydd ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn casglu adborth gan breswylwyr lleol, partneriaid a pherchnogion busnes ar ddau fater plismona pwysig:

1. Y blaenoriaethau a nodir o fewn Cynllun Heddlu a Throseddu drafft Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer 2021/25; a'r
2. Praesept Heddlu ar gyfer 2022/23.

Ystyriodd y Comisiynydd a'i dîm adborth ar y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu drafft wrth gwblhau'r Cynllun.

Ystyriwyd canlyniadau'r elfen o'r ymgynghoriad a oedd yn ymwneud ag ariannu'r heddlu gan y Comisiynydd wrth wneud penderfyniadau, ac fe'u cynhwyswyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sydd ar gael i'w ddarllen ar wefan y Comisiynydd: <https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/cyllid/y-praesep-t-a-r-cynllun-ariannol-tymor-canolig/>

### ***'Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo yn eich ardal leol?'***

Mae'r term Trais yn Erbyn Menywod a Merched yn cyfeirio at drais neu gam-drin sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched. Daeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched i'r amlwg mewn trafodaethau cenedlaethol yn 2021, gan dderbyn sylw yn y cyfryngau. Mewn ymateb i'r sylw cenedlaethol hwn, roedd hi'n bwysig i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ystyried y sefyllfa leol.

*Ydy menywod a merched yn teimlo'n anniogel yn anghymesur ar draws yr ardal Heddlu?*

I ddeall hyn, lansiodd y Comisiynydd ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn asesu teimladau cyffredinol o ddiogelwch. Bydd y wybodaeth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad hwn yn ein galluogi i nodi unrhyw achos pryder yn lleol o ran teimladau o ddiogelwch, yn benodol o fewn ein poblogaeth fenywaidd.

Ymatebodd 532 o bobl i'r arolwg, ac yn galonogol roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol. Roedd teimladau anniogelwch yn fwy amlwg yn y nos nag yn ystod y dydd. Yn gyffredinol, roedd yn amlwg bod menywod yn teimlo'n sylweddol llai diogel na dynion ym mhob ardal/lleoliad a ystyriwyd yn yr arolwg, yn ystod y dydd a'r nos.

Mae'r gwaith dadansoddi'n parhau tan 2022 i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r data sy'n cael ei adfer a'r adborth a rennir. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i lywio gwaith craffu pellach gan Swyddfa'r Comisiynydd.



# Adnoddau

## Cyllideb 2021-22

Yn dilyn proses drylwyr o graffu a thrafod tybiaethau ariannol, risgiau sy'n bygwth ein cymunedau, gofynion buddsoddi a blaenoriaethau, gosododd y Comisiynydd gyllideb refeniw o £119.8m i ddarparu gwasanaethau plismona ar gyfer ardal Dyfed-Powys ar gyfer 2021/22.

**£119.8m** ar gyfer gwasanaethau plismona 2021/22, gyda **£106.1m** ohono ar gyfer tâl a chostau pensiwn Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu.

Fel rhan o'r gyllideb hon, gosododd y Comisiynydd braesept o £275.56 fesul eiddo Band D sydd, unwaith eto, yn golygu mai ardal Dyfed-Powys sydd â'r praesept treth gyngor isaf yng Nghymru.

Roedd setliad grant 2021/22 ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys yn £59.5m ac wedi'i gynnwys o fewn ei linell sylfaen, arian ychwanegol i gefnogi'r gyfran gyntaf o 42 o swyddogion o dan Raglen Ymgodiad yr Heddlu, ynghyd â grant penodol pellach i gefnogi'r ail gyfran o 42 o swyddogion pellach erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r Heddlu'n parhau i nodi mesurau effeithlonrwydd ac roedd y gyllideb yn rhagdybio y bydd arbedion ariannol o £1.6m yn cael eu cyflawni ar draws nifer o fentrau gan gynnwys strwythurau gweithlu, trefniadau cydweithredol, datblygiadau TGCh, cynhyrchu incwm a gostyngiadau mewn gwariant di-dâl a ddarperir trwy fentrau caffael a lleihau costau.

Fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb, cymeradwyodd y Comisiynydd y byddai £1.6m o arian wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i liniaru effaith pwysau costau unwaith ac am byth a ddisgwyld o weithrediadau parhaus sy'n gysylltiedig â'r gwrsyll ceiswyr lloches ym Mhenalun ac oherwydd yr effaith barhaus. natur gyfredol y pandemig COVID-19. Fodd bynnag, daeth yn amlwg yn ddiweddarach y byddai gweithrediadau sy'n gysylltiedig â gwrsyll Penalun yn dod i ben ym mis Mawrth 2021. Dyrannodd y Swyddfa



Gartref hefyd gyllid untro o £0.4m mewn grant ychwanegol y gellid ei gymhwyso i gwrdd ag unrhyw bwysau parhaus o ran costau Pandemig. Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid cylchol ychwanegol ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) o £0.3m. Galluogodd y datblygiadau hyn i'r Comisiynydd leihau'r

cyfraniad yr oedd ei angen o'r cronfeydd wrth gefn i fantoli'r gyllideb yn 2021/22 o £1.4m i £0.2m ac adolygu'r gyllideb yn unol â hynny.

Mae'r tabl canlynol – Datganiad Amrywio – yn nodi'r sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2021/22 ac yn cymharu hyn â'r gyllideb wreiddiol a diwygiedig.

Datganiad Amrywiannau	Cyllideb Wreiddiol	Cyllideb Ddiwygiedig	Gwirioneddol	Amrywiant (Cadarnhaol am Arbediad)
Deiliad y Gyllideb	£M	£M	£M	£M
<b>Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau</b>				
Costau'r Swyddfa a Chomisiynu	2.1	2.1	2.1	0.0
Costau Ystadau	4.1	4.1	4.0	0.1
Trosglwyddo i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn - Comisiynydd	0.0	0.0	0.1	(0.1)
<b>Cyfanswm Costau Cyllideb Refeniw'r Comisiynydd</b>	<b>6.2</b>	<b>6.2</b>	<b>6.2</b>	<b>(0.0)</b>
<b>Prif Gwnstabl</b>				
<b>Cyfanswm y Gyllideb - Heddlu</b>	<b>115.2</b>	<b>113.8</b>	<b>111.4</b>	<b>2.4</b>
<b>Cyfanswm y Gyllideb - Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl</b>	<b>121.4</b>	<b>120.0</b>	<b>117.6</b>	<b>2.4</b>
Cyfraniad at/(o) Gronfeydd Wrth Gefn - Prif Gwnstabl	(1.6)	(0.2)	2.2	(2.4)
<b>Gwariant Net ar ôl Trosglwyddo o Gyllid i Gronfeydd Wrth Gefn</b>	<b>119.8</b>	<b>119.8</b>	<b>119.8</b>	<b>0.0</b>

Mae'r sefyllfa alldro derfynol yn dangos bod amrywiad cadarnhaol o £0.1m yng nghyllideb Refeniw'r Comisiynydd yn ymwneud â'r Adran Ystadau, o ganlyniad i drosiant staff ac arbedion cynnal a chadw adweithiol. Roedd trosglwyddiad net o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd o £0.1m i gefnogi blaenoriaethau'r Comisiynydd.

Mae'r sefyllfa alldro derfynol yn dangos bod costau'r Prif Gwnstabl £2.4m yn is na'r gyllideb ddiwygiedig am y flwyddyn. Bu cyfyngiadau ariannol sylweddol ar yr Heddlu yn ystod y flwyddyn er gwaethaf rhai galwadau gweithredol sylweddol a oedd yn gwneud asesiad cywir o'r alldro terfynol yn heriol. Wrth osod cyllideb 2022/23, roedd tanwariant o tua £1.0m eisoes wedi'i ragweld a chafodd y swm hwn ei gyllidebu i'w osod yn erbyn gofyniad cyllideb 2022/23 i gwrdd â phwysau costau unwaith ac am byth ychwanegol sy'n disgyn yn y blynyddoedd i ddod.

**Cyfanswm cyllideb 2021/22 ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, a oedd yn cynnwys y Swyddfa, yr Adran Ystadau a Gwasanaethau a Gomisiynir oedd £6.2m.**

Cyflawnwyd llawer yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda buddsoddiad parhaus mewn ystadau, fflyd a seilwaith TG hanfodol gyda chychwyn prosiect i ddisodli System Rheoli Cofnodion yr Heddlu, parhau i gyflwyno Teledu Cylch Cyfyng, buddsoddiad mewn amrywiaeth o brosiectau TG i gefnogi gweithio'n Ystwyth yn well, ynghyd â chynnydd mewn perthynas â'r cyfleuster dalfa/gorsaf newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Gosododd y Comisiynydd gyllideb wreiddiol o £18.5m ar gyfer

2021/22, ond o ganlyniad i oedi mewn perthynas â chynlluniau ystadau mawr dim ond £9.1m a wariwyd erbyn diwedd y flwyddyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r holl ofynion buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol.

Mae perfformiad ariannol yn cael ei adrodd yn fisol drwy Fwrdd Plismona'r Comisiynydd ac yn chwarterol drwy Fwrdd Atebolrwydd cyhoeddus yr Heddlu. Trafodwyd y sefyllfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yn fanwl mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ar 24 Mai 2022. Cymeradwyodd y Comisiynydd greu nifer o gronfeydd wrth gefn newydd a nifer o symudiadau wrth gefn i ariannu mentrau a phrosiectau amrywiol a chynorthwyo i liniaru pwysau untro. Ar ddiwedd 2021/22, cyfanswm y cronfeydd wrth gefn oedd £19.5m, a oedd yn cynnwys swm o £8m i gefnogi ymrwymadau cyllideb cyfalaf yn y dyfodol a chronfa wrth gefn gyffredinol o £4m.



I gael rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol 2021/22, gweler y Datganiad o Gyfrifon Grŵp: <https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/cyllid/cyfrifon-statudol/>



Roedd y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn yn gadarnhaol iawn, gan roi Dyfed-Powys mewn sefyllfa gryfach i fynd i'r afael â'r amrywiaeth o heriau ariannol yn y dyfodol sydd wedi'u nodi'n gynhwysfawr yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig: <https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/11153/dpp172-2223-mtftp-and-precept-report-for-panel-final-20122-c.docx>


## Cyllideb Gomisiynu

Y gyllideb gomisiynu ar gyfer 2021-22 oedd £3,022,430, a oedd yn cynnwys costau staff yn ogystal â chostau a ysgwyddwyd ar gyfer darparu gwasanaethau uniongyrchol.

Ariannwyd £605,586 o'r gyllideb gyffredinol drwy'r Grant Dioddefwyr craidd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MOJ).

Fel y nodwyd eisoes, yn ystod 2021-22 sicrhawyd £629,093 o gyllid MOJ ychwanegol gan y Comisiynydd i gefnogi dioddefwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).


Mae'r ddelwedd ganlynol yn dangos manylion y dyraniad hwn:






**Comisiynydd Heddlu a Throsedd  
Dyfed-Powys  
Police and Crime Commissioner**

**Cysylltu gyda'r Comisiynydd**

 01267 226440

 [opcc@dyfed-powys.police.uk](mailto:opcc@dyfed-powys.police.uk)

 Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys  
Blwch Post 99  
Llangynnwr  
Caerfyrddin  
SA31 2PF

 [www.dyfedpowys-pcc.org.uk](http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk)

 Facebook @DPOPCC

 Twitter @DPOPCC

 Instagram @DPOPCC